# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 24AIN HYDREF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# PWYLLGOR IAITH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Llio Elenid Owen
Elfed Williams
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfai
Gwynfor Owen
Meryl Roberts
Sasha Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Richard Glyn Roberts
Eirwyn Williams
Sedd Wag - Annibynnol
Peter Thomas
Gruffydd Williams

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Menna Trenhome, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27 Mehefin 2023 fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN AMGYLCHEDD 10 - 15

Cyflwyno Gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i’r Polisi Iaith.

## 6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN GYLLID 16 - 21

Cyflwyno Gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i’r Polisi Iaith.

## 7. ADRODDIAD MONITRO DRAFFT CYNLLUN HYBU 2018-2023 22 - 45

I roi trosolwg o’r gwaith monitor ar gyfer gweithredu strategaeth Iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023.

# PWYLLGOR IAITH: DYDD LLUN, 27 MEHEFIN 2023

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:**

Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans Jina Gwyrfai, Olaf Cai Larsen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Sasha Williams, Elfed Williams, Richard Glyn Roberts, Meryl Roberts a Gruffydd Williams

**Swyddogion**: Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Dafydd a Bet Huws (Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Menna Trenholme ( Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

Eitem 7: Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Eitem 8: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
Eitem 9: Nia Wyn Vaughan (Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn yn gadeirydd y Pwyllgor Iaith ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Llio Elenid Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Iaith am y flwyddyn 2023/24.

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Eirwyn Williams a Menna Baines.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

   Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

6. **COFNODON**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 fel rhai cywir.

7. **POLISI IAITH A GWEITHGAREDDAU HYBU'R GYMRAEG- ADRODDIAD ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch Reolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod systemau technolegol yn cael eu diweddaru i gyd-fynd ag anghenion trigolion y Sir. Rhannwyd esiampl o ddiweddaru technoleg Teleofal, sy'n cysylltu unigolion â chanolfannau galwadau i dderbyn cymorth, wrth iddynt bwyso botwm ar freichled neu pendant penodol. Nodwyd bod dros 1500 o bobl yn defnyddio'r offer yma yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Manylwyd bod y gwasanaeth hwn wedi cael ei ddarparu drwy gyfrwng Saesneg yn hanesyddol, ond bod yr Adran yn awyddus i gynnig y ddarpariaeth hon drwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn tafodiaith leol Gwynedd. Eglurwyd bod yr adran yn ceisio sicrhau'r datblygiad hwn drwy uwchraddio'r holl offer i fod yn ddigidol erbyn 2025 ac i gomisiynu cwmnïau i gynorthwyo datblygiad y gofynion ieithyddol.

Adroddwyd bod grŵp ' Mwy na Geiriau' wedi cael ei sefydlu ers blwyddyn ac yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Eglurwyd bod y grŵp yn gosod mesuriadau perfformiad i'r Adran er mwyn derbyn cadarnhad eu bod yn cyrraedd eu targedau ieithyddol.

Esboniwyd bod ymchwiliadau ar system ddigidol y gwasanaeth gofal (WCCIS) yn cael eu cwblhau er mwyn gweld faint o unigolion sy'n dymuno derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg a faint o weithwyr cymdeithasol yr Adran sy'n gallu cynnig y gwasanaeth hwnnw'n Gymraeg. Dengys hyn a yw'r Adran yn cyrraedd gofynion trigolion sy'n derbyn gofal ai peidio. Cadarnhawyd bod mwyafrif helaeth y gweithwyr cymdeithasol yn llwyddo i ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg.

Atgoffwyd yr aelodau bod gwasanaethau yn cael eu cynnig i unigolion yn Gymraeg a bod staff yn darparu y cynnig rhagweithiol. Nodwyd bod angen i'r cleifion wneud cais am ofal drwy gyfrwng Saesneg os ydynt yn dymuno hynny. Cadarnhawyd byddai'r Adran yn atgoffa'r gweithwyr o'r trefniant hynl.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Mewn ymateb i gwestiwn eglurwyd bod yr Adran yncydweithio gyda nifer o asiantaethau a chyrff allanol a bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn un o flaenoriaethau'r holl bartneriaid un ogystal â a darparu gofal i unigolion yn yr iaith sydd fwyaf cyfforddus iddynt .

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

8. **POLISI IAITH A GWEITHGAREDDAU HYBU'R GYMRAEG - ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn cydweithio gydag aelodau CWLWM (5 sefydliad arweinio cenedlaethol gofal plant yng Nghymru) i hybu a hyrwyddo’r Gymraeg ar draws lleoliadau gofal plant yng Ngwynedd.
- Eglurwyd bod Cynllun ‘Croesi’r Bont’ yn parhau gan y Mudiad Meithrin er mwyn trochi’r Gymraeg o fewn y cylchoedd a dosbarthiadau meithrin.
- Nodwyd bod Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn cynnig grantiau o £100 i warchodwyd plant preifat newydd di-gymraeg i helpu prynu adnoddau Cymraeg.
- Esboniwyd bod yr adran yn darparu cymorth i rieni ddysgu Cymraeg drwy sesiynau ‘clwb cwtch’ ar lein y Mudiad Meithrin a hefyd drwy gynnal cyrsiau ‘Friends’ drwy gyfrwng y Gymraeg gyda chymorth Tîm Cefnogi Teulu Tîm Trothwy a Gwasanaethau Ieuenctid.
- Sicrhawyd bod anghenion ieithyddol yn ffactor wrth benderfynu ar faterion megis cynnwys pecynnau gofal a’r gefnogaeth i blant bregus, lleoliadau gofal a maethu/mabwysiadu. Eglurwyd bod angen i rai plant o dan ofal yr Adran cael eu symud i ardal all-sirol oherwydd materion diogelwch ond cadarnhawyd bod Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau i gyfarch anghenion ieithyddol y plentyn drwy ymweliadau ac adnoddau.
- Adroddwyd bod 55 o ddarparwyr Addysg Feithrin yng Ngwynedd yn derbyn cefnogaeth Athrawes Blynyddoedd Cynnar gan yr Adran. Eglurwyd eu bod yn darparu addysg feithrin cyfrwng Cymraeg am 10 awr y wythnos i blant 3 oed er mwyn eu trochi yn yr iaith a chyflwyno’r iaith iddynt fel iaith addysgu.
- Esboniwyd bod rhwydwaith o weithwyr Cymorth Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cyfleon dysgu anffurfiol ac achrediadau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Eglurwyd bod hyn yn llwyddo i bontio gweithgareddau’r ysgol â rhai cymdeithasol megis Gwobr Dug Caeredin, ble mae holl elfennau’r wobr ar gael yn y Gymraeg drwy Ap newydd.
- Cadarnhawyd bod holl ddeunyddiau’r rhaglen ‘Amddiffyn Plant yn Effeithiol’ wedi cael eu datblygu’n Gymraeg a Saesneg ar gyfer defnydd rhanbarthol a chenedlaethol.
- Rhannwyd bod grŵp o ofalwyr maeth o Wynedd wedi creu fideo fel rhan o ymgyrch maethu cenedlaethol Maethu Cymru. Nodwyd bod y fideo yn cael ei chyflwyno’n Gymraeg gydag is-deitlau Saesneg ac yn cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol yn aml i ddenu pobl i feddwl am faethu.
- Esboniwyd bod yr Adran wedi arwain ar sefydlu Fframwaith Gweithgareddau a Chwarae i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws Gwynedd. Manylwyd bod 24 o ddarparwyr gweithgareddau wedi cael eu cymeradwy ar y fframwaith er mwyn darparu cyfleoedd chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ymfalchïwyd bod dros 50 o sefydliadau lleol wedi dod yn ynghyd i gynnid gweithgareddau llesiant i bobl ifanc yn ddiweddar fel rhan o Ŵyl Llesiant Ieuenctid Gwynedd.
- Nodwyd bod yr Adran wedi bod yn cydweithio gyda Thîm Llesiant y Cyngor i ddatblygu Ap ‘Ai Di’ er mwyn darparu ffordd hwylus i ofalwyr ifanc gadw cyswllt gyda’u hysgol, ac i’w ddefnyddio yn gymunedol er mwyn cael gostyngiadau ar weithgareddau a gwasanaethau. Eglurwyd bod yr ap hwn wedi derbyn canmoliaeth genedlaethol yn ddiweddar gan ei fod yn cyrraedd anghenion gofalwyr ifanc.
- Diweddarwyd bod 69% o staff yr adran wedi cwblhau hunanasesiad iaith. Eglurwyd bod nifer o staff heb gwblhau’r hunanasesiad yn weithwyr achlysurol a staff sydd heb fynediad i gyfrifiadur.
- Cadarnhawyd bod 93.8% o staff yr adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Esboniwyd bod 21 aelod o staff ddim yn cyrraedd y dynodiad iaith ar gyfer eu swydd gyda 3 o’r staff hynny yn mynychu hyfforddiant iaith ar hyn o bryd.
- Cydnabuwyd bod trafferthion recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn fater sy’n peri pryder i’r Adran. Cadarnhawyd bod yr adran wedi datblygu Cynllun Gweithlu er mwyn lleihau’r tebygolrwydd o orfod recriwtio gweithwyr cymdeithasol di-gymraeg

neu ddefnyddio gweithwyr asiantaeth ddi-gymraeg. Nodwyd bod y Cynllun Gweithlu hwn eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth y Cabinet a Phwyllgor Craffu Gofal.

- Trafodwyd bod cydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda phartneriaid yn her sy'n wynebu'r Adran. Manylwyd bod hyn yn cynnwys cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan nad yw nifer o'r partneriaid yn cynnig darpariaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd rhithiol. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn cynnal y mwyafrif o'u cyfarfodydd yn ddwyieithog a diolchwyd i Uned Gyfieithu'r Cyngor am gydweithio mor effeithiol gyda'r Adran.
- Eglurwyd bod pobl ifanc sy'n derbyn dedfryd o garchar wedi cael ei ychwanegu i gofrestr risg yr Adran. Manylwyd bod hyn oherwydd nad oes gan yr Adran unrhyw reolaeth o ble fydd yr unigolion yn cael eu dedfrydu a byddent yn colli pob cysylltiad gyda'u teulu, iaith a diwylliant dros y cyfnod hwn. Rhannwyd enghraifft berthnasol o'r sefyllfa hon a chadarnhawyd bod yr adran yn parhau i'w gefnogi drwy gyfrwng y Gymraeg dros gyfnod ei ddedfryd, gyda chymorth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gweithwyr Cymdeithasol.
- Amlygwyd bod canfod lleoliadau gofal addas i blant yn heriol a nodwyd bod yr adran wedi derbyn cwyn gan un person ifanc gan fod y staff sy'n edrych ar ei ôl yn ddi-gymraeg. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn gwneud popeth yn eu gallu er mwyn lleoli unrhyw unigolion mewn lleoliadau gofal addas ym mhob ystyr.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Eglurwyd bod ardaloedd Dechrau'n Deg wedi cael ei gyfyngu i leoliadau penodol yn y gorffennol oherwydd ei fod yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod yr angen am y gwasanaeth wedi amlygu mewn ardaloedd eraill o fewn Gwynedd erbyn hyn ac mae'r cynllun wedi cael ei ymestyn. Cadarnhawyd bod cynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth ymhellach yn y dyfodol oherwydd ei fod yn rhoi cefnogaeth bwysig i blant a rhieni a darpariaeth gofal plant am 12.5 awr yr wythnos i blant 2 oed.
- Ymfalchïwyd bo sefyllfa recriwtio'r Adran wedi gwella yn ddiweddar gan nad oes swyddi gwag o fewn yr Aran ar hyn o bryd. Trafodwyd bod yr Adran wedi gweithio ar nifer o wahanol ffyrdd i ddenu staff megis cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn rhoi profiad lleoliadau gwaith i 9 disgybl MA. Eglurwyd bod 7 o'r disgyblion heini wedi llwyddo i dderbyn swydd ar ddiwedd eu profiad gwaith a bod pob un ohonynt yn siarad Cymraeg.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod gofyniad statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth â'r safonau ieithyddol yn unol ag Adran 44 Deddf Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nodwyd bod angen cyhoeddi'r adroddiad hon erbyn 30 Mehefin 2023.

Adroddwyd bod y ffigyrau isod wedi cael eu cynnwys o fewn yr adroddiad:

- Bod 99.4% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg.

- Bod 93% o staff y Cyngor yn cyrraedd lefel Sylfaen neu uwch, ac felly yn gallu siarad Cymraeg.
- Bod 833 o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn lle'r oedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.
- Bod Polisi Iaith newydd wedi ei gyhoeddi, gyda pholisïau atodol.
- Bod camau penodol i wella cydymffurfiaeth wrth ymgynghori ar benderfyniadau polisi.
- Bod adolygiad o systemau TG wedi ei gychwyn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Polisi o ran arddel enwau Cymraeg, a'r Safonau o ran ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg neu ddwyieithog.

Amlygwyd rhai o'r heriau y bydd yr Uned Iaith a Chraffu yn rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog a'r cynnig rhagweithiol Cymraeg. Nodwyd bod yr heriau hyn yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth staff am union ofynion y safonau iaith. Ystyriwyd bod angen i'r Cyngor bod yn rhannu'r wybodaeth hyn gyda staff mewn ffyrdd creadigol er mwyn cadarnhau fod pawb yn ymwybodol o'r gofynion.
- Bod lleihad bychan dros y blynyddoedd diwethaf ar y nifer o staff sy'n dewis cwblhau cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Pwysleisiwyd bod yr uned yn bwriadu cynnal trafodaethau gyda Thîm Dysgu a Datblygu er mwyn edrych i weld sut gallent fod o gymorth.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Cadarnhawyd nad oedd unrhyw swydd wedi cael ei hysbysebu gan y Cyngor nad oedd yn nodi'r sgiliau ieithyddol oedd yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd. Eglurwyd bod gofynion dynodiad iaith yn amrywio o hysbyseb i hysbyseb, yn unol â gofynion y rolau a gyflawnwyd o fewn y swyddi.
- Eglurwyd bod unigolion ar lefel Sylfaen Cymraeg yn hyderus i siarad yr iaith ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol. Eglurwyd bod rhai swyddi'n chwilio am unigolion sy'n meddu â sgiliau Uwch, ond bod hyn yn amrywio gyda'r rôl. Atgoffwyd yr aelodau bod gan y Cyngor weithdrefn effeithiol er mwyn cefnogi gweithwyr sy'n dysgu'r iaith a bod y trefniant hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu sgiliau ieithyddol unrhyw aelod o staff sydd angen cymorth.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
- **Argymhellwyd i'r Aelod Cabinet gyhoeddi'r adroddiad erbyn y terfyn amser (30 Mehefin 2023).**

10. **CANLYNIADAU YMGYNGHORI STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2023.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd bod Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg)(Cymru) 2011 yn gosod gofynion ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd sydd yn nodi sut y maent yn bwriadu mynd ati i hyrwyddo a hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn y Sir. Nodwyd bod angen i'r Cyngor egluro sut mae'r gweithredoedd hyn am gyfrannu at amcanion cenedlaethol Cymraeg 2050 i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg.

Eglurwyd bod cyfnod y strategaeth hybu bresennol yn dod i ben ym mis Hydref 2023. Nodwyd bod y cyfnod adolygu wedi cychwyn ar ddechrau 2023 a chynhaliwyd sesiynau trafod gydag aelodau Cabinet, y Pwyllgor Iaith a Fforwm Iaith Gwynedd er mwyn derbyn mewnbwn, cyn cynnal cyfnod ymgynghori ar y strategaeth ddrafft rhwng 17 Ebrill a 21 Mai 2023.

Adroddwyd bod 159 o ymatebion electronig ac un llythyr o ymatebiad wedi cyrraedd y gwasanaeth. Manylwyd bod trawstoriad da o bob rhan o'r Sir, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn unigolion rhwng 35 a 74 oed. Cadarnhawyd mai dim ond 3 ymatebiad oedd gan bobl o dan 34 oed a phwysleisiwyd bydd y gwasanaeth yn ystyried yn ofalus sut maent yn casglu barn y garfan yma o'r gymuned yn y dyfodol.

Esboniwyd bod 72.3% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad i ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.R oedd hyn yn thema cyffredin mewn nifer o ymatebion er mwyn galluogi pobl i fagu hyder wrth siarad Cymraeg.

Cadarnhawyd y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i newidiadau neu addasiadau i'r strategaeth derfynol er mwyn ymateb i rai o'r sylwadau yn yr ymgynghoriad. Manylwyd bydd drafft terfynol yn cael ei rannu ag adrannau mewnol er mwyn gallu adnabod ffrydiau gwaith fydd yn ateb yr amcanion ac yn creu rhaglen waith cychwynnol.

Rhannwyd y bwriedir cyflwyno drafft terfynol y strategaeth i'r Cabinet ym mis Hydref 2023.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y mater canlynol:

- Nodwyd bod ymatebion i'r ymgynghoriaeth yn isel fwy na thebyg oherwydd bod gan y Cyngor nifer o ymgynghoriadau ar y gweill yr un pryd. Cytunwyd bod angen ystyried dulliau newydd i rannu gwybodaeth er mwyn i'r adborth a dderbynnir fod yn adlewyrchiad teg o farn y cyhoedd ond cydnabuwyd bod heriau yn wynebu cynnal ymgynghoriaethau ar hyn o bryd – megis heriau cyfryngau cymdeithasol a heriau i dderbyn ymatebion gan drawstoriad o oedrannau gwahanol.
- Cadarnhawyd nad yw'r gwasanaeth wedi ymchwilio hyd yma, i effeithiau Dealltwriaeth Artiffisial (Artificial Intelligence - AI) ar yr iaith Gymraeg yn y dyfodol. Pwysleisiwyd bod y dechnoleg hon wedi datblygu'n gyflym a bydd gwaith ymchwil yn cael ei wneud iddo yn ystod cyfnod y strategaeth hon.
- Pwysleisiwyd bod dyletswydd ar y Cyngor i roi ystyriaeth i holl ymatebion yr ymgynghoriaeth. Cytunwyd mai lleiafrif o'r ymatebion oedd yn negyddol ond nodwyd bod rhaid i swyddogion fod yn ymwybodol o'r sylwadau hyn wrth fynd ymlaen i lunio drafft terfynol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad, a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn Atodiad 1, gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:15yp.

---

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 24 Hydref 2023 |
| **TEITL** | Adroddiad Adran Amgylchedd |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |

## 1. CEFNDIR

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn ydi cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Amgylchedd i'r Polisi Iaith.

1.2 Mae'r Adran Amgylchedd yn cynnwys amrediad o wasanaethau ar draws meysydd Gwastraff ac Ailgylchu, Trafnidiaeth, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

1.3 Mae natur y gwasanaethau yma yn golygu fod staff yn dod i gyswllt rheolaidd gydag aelodau'r cyhoedd, cynghorwyr, staff eraill y Cyngor, awdurdodau a phartneriaid allanol eraill.

1.4 Fel Adran, mae pob ymdrech i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn newis iaith y cwsmer, ac mae ymdrech gan swyddogion yr Adran i hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg yn rhinwedd eu gwaith.

1.5 Byddwn yn amlygu yn yr adroddiad y gwaith sy'n digwydd ar draws yr Adran i hybu a hyrwyddo'r iaith, y cyfleoedd sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth i'n trigolion gan gydnabod hefyd yr heriau sy'n wynebu'r maes.

## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

| **Cwestiwn 1. Hybu a hyrwyddo** |
|---|
| Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddwytha sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)?<br><br>Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:<br>1. Iaith y teulu,<br>2. Iaith dysgu,<br>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,<br>4. Iaith y gymuned<br>5. Ymchwil a Thechnoleg |

| |
|---|
| Mae'r strategaeth gyfredol i'w gweld yma: ([https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf)) |
| **Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur**<br>Mae gwaith y Tîm Polisi Cynllunio yn ymwneud yn bennaf â pharatoi, monitro, adolygu, diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2011-26) gan gynnwys paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae ystyriaeth o'r iaith Gymraeg wedi bod yn ganolog i'r broses o baratoi'r Cynllun sydd yn ymgorffori polisi cynllunio PS1 sy'n ymwneud yn benodol â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.<br><br>Mae Canllaw Cynllunio Atodol (Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy), hefyd yn cynnwys arweiniad manwl ar sut i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth ddelio gyda cheisiadau am ddatblygiadau newydd.<br><br>Trwy'r gwaith yma, mae'r Cynllun yn cyfrannu tuag at hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Bydd y Tîm yn parhau i flaenoriaethu'r maes allweddol yma wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd i Wynedd.<br><br>Mae llawer o waith swyddogion y maes Tirwedd a Natur yn golygu gweithio'n agos gyda'r cyhoedd, ac mae hwyluso mynediad at ein hamgylchedd naturiol yn rhan annatod o'u gwaith. Yn hynny o beth, mae Swyddogion Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau wedi datblygu taflen teithiau cerdded fel rhan o brosiect morwellt yn yr ardal. Yn ogystal â pharatoi deunydd am y teithiau cerdded a'r prosiect, mae'r swyddogion hefyd wedi bod yn cynnal teithiau cerdded gyda dysgwyr gan roi cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg a dysgu geiriau a thermau newydd.<br><br>Mae'r tîm yma hefyd wedi arwain partneriaeth i ddatblygu pecyn addysg ddwyieithog 'Tir a Môr' ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r pecyn yn cynnig adnodd safonol y gellir ei ddefnyddio gydag amrywiaeth o daflenni gwaith sy'n golygu y gall ysgolion barhau gydag astudiaethau yn y dosbarth ac yn galluogi athrawon i gynnal sesiynau eu hunain.<br><br>Mae swyddogion bioamrywiaeth yn cynnal gwaith rheolaidd i annog diddordeb a hyrwyddo natur. Cynhaliwyd diwrnod darganfod natur ar y cyd â nifer o bartneriaid yng ngwarchodfa Morfa Madryn ger Llanfairfechan a fu'n gyfle i gynnal amrywiaeth o weithgareddau gyda theuluoedd.<br><br>Ym Mharc y Dre yng Nghaernarfon, gyda chyllid trwy bartneriaeth Natur Lleol, mae'r tîm wedi gosod arwyddbyst sy'n nodi enwau coed yn Gymraeg, Saesneg a Lladin yn y parc hanesyddol yma. Fel ymestyniad o'r ymdrech i annog defnydd Cymraeg o goed a phlanhigion, crëwyd taflen wybodaeth yn nodi enwau ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau a hyrwyddwyd ar stondin y Cyngor yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.<br><br>Fel rhan o'r gwaith o hyrwyddo ein cynefinoedd gwyrdd cyhoeddus, bu swyddogion yn cydweithio gyda Phartneriaethau Natur Lleol Cymru er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb rhanbarthol iaith wrth hyrwyddo'r pecyn cymorth i |

randdeiliaid 'Iddyn nhw'. Defnyddiwyd yr wybodaeth yn y pecyn yma i greu'r arwyddion hyrwyddo a throsglwyddo'r neges o'r gwaith fel rhan o'r rhaglen Ymylon Gwyllt Gwynedd.

**Cynllunio**
Wrth ymdrin ag unrhyw gais cynllunio, mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sydd fel yr amlinellir uchod yn cynnwys polisi penodol i'r iaith Gymraeg a Chanllaw Cynllunio Atodol sy'n rhoi arweiniad manwl ar sut i weithredu'r polisi.

Trwy weithredu yn y modd yma, mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn cyfrannu tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn yr ardal gan sicrhau fod ceisiadau'n rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg yn unol â'r Polisi a'r Canllaw gan amlygu pwysigrwydd diwylliannol yr iaith, yn ogystal â drwy hyrwyddo'r iaith i fod yn weledol mewn datblygiadau (e.e. arwyddion). Er nad oes pŵer dros gynnwys arwyddion, mae swyddogion yn cysylltu gydag ymgeiswyr bob amser i geisio sicrhau arwyddion Cymraeg.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cyfrannu at brosiect Gwarchod Enwau Lleoedd y Cyngor. Trwy hynny, mae'r gwasanaeth wedi adolygu amodau cynllunio ac ychwanegu amod cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai newydd i sicrhau enw Cymraeg i'r tŷ a neu'r stad. Mae hyn o gymorth i'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu wrth ddelio gyda cheisiadau ffurfiol o enwi tai a strydoedd newydd.

**Rheolaeth Adeiladu**
Mae gan y Gwasanaeth gyfrifoldeb am reoli enwi strydoedd ac enwi a rhifo eiddo, gyda dyletswydd statudol i sicrhau fod unrhyw enw newydd neu ddiwygiad i enwau strydoedd ac eiddo yn cael eu dyrannu'n rhesymegol ac mewn modd cyson.

Tra nad oes pwerau gorfodi i wrthod cais oni bai fod yna ddyblygu neu nad ydi'r enw yn briodol, mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn cymryd ymagwedd ragweithiol i amlygu arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol enwau Cymraeg.

Mae'r ystadegau diweddaraf (2022/23) yn dangos y bu 76 o geisiadau i newid enwau eiddo gyda 95% o'r enwau a gofrestrwyd drwy'r Post Brenhinol yn enwau Cymraeg. Nodir lle gwnaeth ymgeiswyr gais i newid o enw Cymraeg i Saesneg, bod cysylltiadau gyda enw(au) busnes. Mae'n galonogol iawn, o'r 76 cais, fod 22 o berchnogion eiddo wedi newid o enwau Saesneg yn ôl i enwau Cymraeg gyda llawer yn gwerthfawrogi'r enwi hanesyddol gwreiddiol (eraill yn newid o un enw Cymraeg i un arall neu'n gosod enw ar eiddo am y tro cyntaf a hynny yn y Gymraeg).

O ran y maes yma, mae Cadw, wedi comisiynu ymgynghorwyr Iaith i gynnal ymchwil i gael gwell dealltwriaeth o'r newidiadau o amgylch enwau lleoedd Cymraeg ac mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu wedi rhannu profiadau. Bydd yr ymchwil hwn yn cyfrannu at ystyried yr ystod o opsiynau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol sydd ar gael i ddiogelu enwau lleoedd os a lle cânt eu nodi fel enwau sydd o dan bwysau newid; a chryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar newid enwau lleoedd.

**Gwarchod y Cyhoedd**

| |
|---|
| Mae Gwasanaethau Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach yn cefnogi ac yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol i hyrwyddo negeseuon pwysig i'r cyhoedd. Mae hynny'n cynnwys negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.<br><br>Pan fydd archwiliadau yn cael eu cynnal gan swyddogion y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, mae cyfathrebu a chyswllt y cael ei gynnal yn newis iaith y cwsmer, gan amlygu'r ffaith fod y Cyngor yn croesawu cyfathrebiad yn Gymraeg.<br><br>**Cludiant a Diogelwch y Ffordd**<br>Fel rhan o delerau ac amodau cytundebau bysiau a thacsis, mae'n ofynnol fod y contractwyr yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. Mae unrhyw ddogfennaeth neu negeseuon sy'n cael eu harddangos ar fysiau a llochesi bws yn gwbl ddwyieithog.<br><br>Mae'r tîm Diogelwch y Ffyrdd yn cynnal gweithgareddau mewn ysgolion ac yn y gymuned, gyda'r mwyafrif llethol o hyrwyddo wyneb yn wyneb yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg oni bai fod dewis iaith aelod o'r cyhoedd yn galw am gyfathrebu'n Saesneg. Mae'r tîm hefyd yn hyrwyddo eu gwaith trwy wefannau a chyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog.<br><br>**Parcio a Gwaith Stryd**<br>Mae'r gwasanaeth yn cynnig dulliau talu dwyieithog ym meysydd parcio'r sir yn y peiriannau talu ac arddangos neu trwy ap ffôn symudol. O ran agwedd gwaith stryd, yn amlwg mae'r holl arwyddion a osodir ar rannau o'r briffordd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael ei arddangos yn gyntaf.<br><br>**Gwastraff ac Ailgylchu**<br>Mae gwaith rheolaidd yn digwydd yn y maes yma i hyrwyddo gwasanaethau ailgylchu ac annog trigolion i wneud y mwyaf o ddulliau ailgylchu deunyddiau. Mae'r holl wybodaeth a deunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir yn ddwyieithog, gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.<br><br>Mae swyddogion yn mynychu digwyddiadau i hyrwyddo'r gwasanaethau ac yn cyfathrebu a chyflwyno yn Gymraeg oni bai fod dewis iaith y trigolion yn golygu fod angen trafod yn ddwyieithog neu'n Saesneg.<br><br>Fe wneir pob ymdrech i fachu ar bob cyfle i hyrwyddo'r gwasanaethau ac annog trigolion i leihau gwastraff, gyda enghraifft dda o hynny mewn cyflwyniad am wneud y mwyaf o'r bwyd sydd gennych gyda sesiwn hyrwyddo gyda chogydd lleol yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol.<br><br>Mae deunydd hyrwyddo sy'n cael ei gynhyrchu yn sicrhau defnydd o Gymraeg clir, ac mae holl negeseuon mewnol i'r gweithlu yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg. |
| **Cwestiwn 2. Materion Polisi a Safonau** |
| i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau Iaith). |

ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg)?

iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwyieithog.

**i. Sgiliau iaith staff**
Mae'r Adran Amgylchedd yn cyflogi 345 o staff, a dengys adroddiad trosolwg diweddaraf fod 91% o staff sydd wedi cynnal hunanasesiad iaith neu sydd wedi derbyn asesiad rheolwr llinell yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. Mae hyn yn gyson gyda lefel iaith staff ar draws y Cyngor.

Mae'n bwysig nodi nad ydi'r ffaith fod aelod o staff yn cwrdd y gofynion iaith yn golygu nad ydynt yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r cwsmer, ac mae'r Adran yn hyrwyddo unrhyw gyfleoedd i staff fynychu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau neu loywi iaith.

Serch hynny, dylid nodi fod nifer sylweddol o weithlu y Gwasanaeth Gwastraff heb asesiad dynodiad iaith. Mae hynny yn dilyn patrwm a welwyd cyn i'r maes gwastraff drosglwyddo i'r Adran Amgylchedd a dylid nodi fod ymdrechion wedi eu cynnal gan yr Adran Briffyrdd yn flaenorol i sicrhau fod asesiadau iaith yn cael eu cwblhau. Mae ymdrechion yn parhau er mwyn sicrhau fod asesiadau yn cael eu cynnal er mwyn deall sgiliau iaith staff ar draws yr Adran.

Dengys yr adroddiad trosolwg diweddaraf fod 49 o staff y maes Gwastraff wedi eu hasesu, ond fod 111 o staff heb asesiad. Mae hyn yn amlwg yn her, a chydnabyddir fod gwaith pellach angen ei gynnal i sicrhau fod asesiadau yn cael eu cwblhau, ac mae cais i reolwyr llinell fod yn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal asesiadau dros y cyfnod nesaf.

**ii. Rhwystrau**
Mae heriau recriwtio wedi bod mewn rhai meysydd arbenigol yn cynnwys Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, o ran cymwysterau angenrheidiol ynghyd a'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Mae hyn wedi bod yn wir ym maes cynllunio lle mae recriwtio Cynllunwyr cymwys sy'n siarad Cymraeg yn gallu bod yn anodd, ond mae'r gallu i gyfathrebu yn rhugl trwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol mewn maes sy'n delio yn rheolaidd gyda'r cyhoedd.

Serch hynny, mae'n braf gallu adrodd fod y Gwasanaeth Cynllunio wedi penodi 2 hyfforddai proffesiynol am gyfnod o 3 blynedd yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hyn yn cynnig cyfle i hyfforddi swyddogion a sicrhau dilyniant i'r gwasanaeth i'r dyfodol, gan sicrhau swyddogion fydd yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg i drigolion Gwynedd i'r dyfodol.

Yn ogystal mae 3 hyfforddai hefyd wedi eu penodi i'r meysydd Gwarchod y Cyhoedd ers yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iaith y llynedd, un hyfforddai yn gweithio ym mhob maes Gwarchod y Cyhoedd, sef Bwyd a Diogelwch; Amgylchedd a Thrwyddedu; a Safonau Masnach. Mae'r hyfforddeion yma wedi

| |
|---|
| cychwyn yn y rôl ers rhai misoedd, gyda'r 3 unigolyn yn cael cyfle i fagu sgiliau proffesiynol arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>**iii. Canmoliaeth a Chwynion**<br>Amlinellir yn ateb i gwestiwn 1, yr amrediad o feysydd lle mae gwasanaethau'r Adran yn gweithio i hybu a hyrwyddo'r iaith. Mae llawer o'r ymdrechion yma a amlygwyd mewn gweithgareddau yn ystod Eisteddfod Genedlaethol eleni wedi eu canmol a derbyn adborth gadarnhaol.<br><br>O ran cwynion, mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi ymdrin a rhai sylwadau sydd wedi codi oherwydd bod adroddiadau swyddogion ar geisiadau yn cael eu paratoi yn Gymraeg yn unig. Ond mae ymgeiswyr yn derbyn mai dyna'r drefn, a bod modd darparu cyfieithiad pan mae cais am hynny.<br><br>Mae pryderon wedi eu cyflwyno am enwau lleoedd mewn gorchmynion cau ffyrdd a'r ffaith fod enwau Saesneg wedi eu cynnwys ynghyd â'r Gymraeg. Mewn unrhyw achos o'r fath, mae tuedd i gynnwys holl enwau a ddefnyddir ar gyfer stryd neu leoliad (Cymraeg a Saesneg) a hynny er mwyn ceisio sicrhau fod y rhybudd yn ddealladwy a chynhwysfawr i holl ddefnyddwyr y ffordd. Ond er mwyn rhoi sylw i'r pryderon a gyflwynwyd, mae'r mater yn derbyn ystyriaeth gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. |
| **Cwestiwn 3. Cyfleoedd Datblygu** |
| Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill? |
| Gyda datblygiad yn y maes gwefru cerbydau, mae swyddogion o'r tîm Traffig yn gweithio i sicrhau fod darparwyr allanol yn sicrhau fod modd defnyddio'r technoleg newydd hwn drwy cyfrwng y Cymraeg. Wrth ddatblygu rhwydwaith o beiriannau gwefru ar dir y Cyngor, rydym yn arddel derminoleg newydd yn y Gymraeg wrth gyfeirio at elfennau technegol er mwyn ceisio annog defnydd ymhlith y cyhoedd o'r termau Cymraeg, megis gwefru, gwefru chwim ac ati.<br><br>Mae gwaith cadarnhaol yn digwydd i hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu hyder staff i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg, ac mae gwaith i hyrwyddo unrhyw lwyddiannau yn fewnol trwy y Fewnrwyd Staff a chylchgrawn Gair o Gyngor. Byddai tynnu sylw at ymdrechion staff y Cyngor yn y maes yma yn gyhoeddus yn fodd o amlygu ein bod yn awyddus i gefnogi datblygiad staff ac yn fodd o annog siaradwyr newydd neu bobl sydd heb yr hyder yn eu Cymraeg fod y  Cyngor yn gyflogwr sydd yn cefnogi gweithlu i ddatblygu sgiliau a hyder yn eu Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Iaith** |
| DYDDIAD | **24 Hydref 2023** |
| TEITL | **Cynllun Hybu'r Gymraeg – Adran Gyllid** |
| PWRPAS | **Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith** |
| AWDUR | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** |

**<u>Cefndir</u>**

1. Paratowyd yr adroddiad hwn i gyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith ar gyfraniad yr Adran Gyllid i'r Polisi Iaith.

2. Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio yn holl waith yr Adran, ac mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth ar gyfer ein trigolion, tra hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n Wynebu'r maes gwaith.

3. Mae gwasanaethau'r Adran Gyllid yn cynhyrchu amrywiaeth o lythyrau, taflenni, ffurflenni, posteri, gwefannau a systemau dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn iaith ddiofyn. Ymhellach, mae'r Adran yn anelu at gyrraedd safon 'Cymraeg Clir', fel nad yw cwsmeriaid Cymraeg yn teimlo bod ein dogfennau Cymraeg yn rhy anodd i'w deall a'u defnyddio.

| Mater yr hoffai’r aelodau ei drafod: | |
| --- | --- |
| **<u>Hybu ac Hyrwyddo</u>**<br>Sut  mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned)?<br>Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu’r Gymraeg mewn pum maes:<br>1. Iaith y teulu,<br>2. Iaith dysgu,<br>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,<br>4. Iaith y gymuned<br>5. Ymchwil a Thechnoleg | **<u>Iaith Microsoft Windows</u>**<br>Mae defnydd byd-eang o gyfrifiaduron drwy gyfrwng y Saesneg gan fusnesau ac unigolion wedi cyflyru defnyddwyr (hyd yn oed yng Ngwynedd) i ymgyfarwyddo gyda thermau Saesneg mewn amrywiol systemau. Er gwaethaf hynny, rydym yn annog ein defnyddwyr i weithio gyda’r gosodiad Cymraeg ar ein cyfrifiaduron.<br><br>Mae’r Cyngor yn cyflenwi cyfrifiaduron ar lwyfan “Microsoft Windows” ar gyfer ein swyddogion, gan wasanaethu oddeutu 2,700 o ddefnyddwyr corfforaethol. Derbynnir y cyfrifiaduron hyn â llwyfan weithredu Saesneg, sef y safon diofyn ar gyfer cyfrifiaduron sy’n cael eu cyflenwi yn y DU. Bellach, mae camau mewnol tra’n paratoi’r cyfrifiaduron ar gyfer ein defnyddwyr yn addasu’r gosodiad, gyda phob cyfrifiadur newydd yn cael ei baratoi â llwyfan weithredu yn yr iaith Gymraeg. Y Gymraeg yw gosodiad diofyn ar holl gyfrifiaduron y Cyngor.<br><br>**<u>Cytundeb Bancio</u>**<br>Wrth i’r Adran Gyllid osod gwaith yn allanol ar gytundeb, rydym yn sicrhau fod gwasanaeth yn y Gymraeg yn cael ei gynnig i bobl o fewn cymunedau’r sir, er enghraifft y gwasanaeth i gwsmeriaid ym Manc Barclays a’r Swyddfa Bost.<br><br>Fodd bynnag, dylid nodi siom yr Adran fod Barclays wedi cau canghennau dros y ddwy flynedd ddiwethaf yng Ngwynedd.  Bu i ganghennau Caernarfon a Porthmadog gau yn Chwefror 2022, cangen Dolgellau cyn diwedd 2022 a bellach cyhoeddwyd fod cangen Pwllheli yn cau yn Nhachwedd 2023.  Dim ond un cangen fydd ar ôl wedyn yng Ngwynedd, sef cangen Bangor.  Bydd yr Adran Gyllid yn dechrau’r broses o dendro am wasanaethau bancio yn fuan gan fod y gytundeb yn dod i ben ym Medi 2024.<br><br>**<u>Cyflenwyr arbenigol</u>**<br>Nid yw hyn o hyd yn bosib cynnal perthynas gwbl ddwyieithog gyda rhai gwasanaethau arbenigol a thechnegol, oherwydd natur arbenigol y farchnad.  Fodd bynnag, mae staff bob amser yn ymdrechu i weithredu yn fewnol trwy’r Gymraeg lle bynnag mae hynny’n bosib.  Lle mae unrhyw wybodaeth yn cael ei gynhyrchu’n gyhoeddus rydym yn sicrhau ei fod yn  ddwyieithog o’r cychwyn. |

| | |
|---|---|
| | **<u>Fforwm Dynodiadau Iaith</u>**<br>Pwrpas y Fforwm yma yw rhannu gwybodaeth, arferion da, dysgu gan eraill, delio â rhwystrau a chyfleoedd sy'n codi yng nghyd-destun y dynodiadau iaith ar draws y sefydliad.<br><br>Mae'r cyfarfodydd yma yn digwydd yn chwarterol dros *Teams*. Os oes unrhyw fater, cwestiwn neu sylw angen ei godi yn y fforwm, yna bydd cynrychiolydd yr Adran yn gofalu am hyn.<br><br>Mae trefniant mewn lle bod pob gwybodaeth y bydd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg yn ei rannu â chynrychiolydd yr Adran yn cael ei raeadru i bob aelod o staff yr Adran Gyllid.<br><br>**<u>Mewnrwyd yr Adran Gyllid</u>**<br>Mae trefniadau mewn lle gennym i ddiweddaru ac i drawsnewid mewnrwyd yr Adran Gyllid. Mae'r gwaith yma yn cael ei gyd-gordio gan Arweinydd Technegol (TG) a'i Dim. Bydd y fewnrwyd yn bodoli yn y Gymraeg yn unig.<br><br>**<u>Stondin y Gronfa Bensiwn – Eisteddfod Genedlaethol Boduan</u>**<br>Roedd gan y Gronfa Bensiwn Stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Roedd hyn yn gyfle gwych i gwrdd a nifer fawr o aelodau'r gronfa a'u helpu i ddeall eu pensiwn yn well, a rhoi cymorth iddynt greu cyfrif "Fy Mhensiwn" ar-lein neu gwblhau ffurflenni perthnasol.<br><br>**<u>Cydweithio a Phartneriaethau</u>**<br>Mae gan y Cyngor rôl arweiniol mewn sawl partneriaeth rhanbarthol. Mae nifer o wasanaethau'r Adran Gyllid wedi bod â rhan ganolog yn sefydlu trefniadau llywodraethu y partneriaethau yma, er enghraifft y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer rhanbarth y Gogledd, yn ychwanegol i'r gwaith oedd eisoes wedi ei wneud wrth gynorthwyol sefydlu Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Credwn fod mewnbwn yn y maes cyllid i'r datblygiadau hyn yn golygu fod y trefniadau, gan gynnwys cyflwyniadau a ddogfennaeth yn y maes ariannol yn cael ei baratoi a'i ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae gallu Gwynedd i gyflawni materion technegol ac arbenigol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu ein bod yn gallu rhoi sicrwydd a hyder wrth gyflawni'r amcanion yma. |

| | |
|---|---|
| | **<u>Logo newydd i'r Gronfa Bensiwn</u>**<br>Wrth baratoi deunyddiau marchnata ar gyfer yr Eisteddfod penderfynwyd cael logo newydd ar gyfer y Gronfa Bensiwn gan fod y logo blaenorol bellach yn hen ffasiwn. Bu i ddylunydd graffeg o'r Adran Gyllid ei ddylunio i ni yn ddwyieithog. |
| **<u>Materion Polisi a Safonau</u>**<br>i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau Iaith).<br><br>ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg)?<br><br>iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwyieithog. | **Sgiliau Iaith Staff**<br>Yn dilyn gwaith diweddar i adolygu gofynion ieithyddol holl swyddi'r Adran, adnabod dynodiadau iaith y swyddi, ac yna i asesu iaith staff yr Adran, gallwn adrodd bod 220 o staff yr Adran (sef 98.18%) bellach wedi cyflwyno hunanasesiad, a 214 o'r rheiny (99.07%) yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi.<br><br>**Rhwystrau**<br>Mae cynnal y gallu i gynnig ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waith parhaus, ac rydym yn ystyried gofynion iaith staff yn ein gwaith bob-dydd, wrth recriwtio a phenodi, anwytho a chynnal sgyrsiau gwerthuso parhaus. Rydym yn cynnig cefnogaeth i staff i ddatblygu eu sgiliau iaith, er mwyn iddynt fedru rhoi'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd yn y Gymraeg a chadw safon uchel yng nghyd-destun yr iaith.<br><br>**Canmoliaeth a Chwynion**<br>Ym mis Mai 2023 derbyniodd y Cyngor adroddiad terfynol Ymchwiliad gorfodi safonau: Adroddiad a hysbysiad penderfynu gan Gomisiynydd y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd. Honnai'r achwynydd iddi dderbyn llythyr uniaith Saesneg ar 06/04/2022 gan y Gwasanaeth Pensiynau. Roedd y llythyr yn ymwneud â phensiwn diweddar fam yr achwynydd. Anfonwyd y llythyr uniaith Saesneg nôl at y Cyngor gan nodi na fydd yn ymateb hyd nes ei bod yn derbyn llythyr Cymraeg. Anfonodd y Cyngor fersiwn Gymraeg o'r llythyr i'r achwynydd ar 21/04/2022 ond roedd yr achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon gan ei bod yn ymddangos bod pennawd a chyfarchiad clo y llythyr hwnnw eto yn Saesneg yn unig. Nododd hefyd nad oedd y Cyngor wedi cydnabod ei gamgymeriad gyda'r llythyr gwreiddiol na chynnig ymddiheuriad iddi am anfon llythyr ati yn Saesneg yn unig. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn derbyn cyfrifoldeb llwyr am y gwall yma, oedd wedi codi yn sgil camgymeriad gan fod y llythyr wedi cael ei ddarparu y tu allan i'r system safonol ac roedd y swyddog perthnasol wedi paratoi llythyr uniaith Saesneg. Mae'r Cyngor yn derbyn ein bod wedi methu a chydymffurfio gyda gofynion Safonau Iaith 5, 6 a 7 yn yr achos penodol yma, ond pwysleisir mai camgymeriad un-tro oedd yma ac nid yw'n adlewyrchiad o drefniadau arferol y Gwasanaeth Pensiynau na'r Adran Gyllid. Mae swyddogion wedi cael eu hatgoffa o'r gofynion sydd arnynt o safbwynt safonau iaith ddisgwyliedig fel nad ydi hyn yn digwydd eto. |
| **Cyfleoedd Datblygu**<br>Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill? | **Cyrsiau i Staff**<br>Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi bod yn hyrwyddo cyrsiau gloywi iaith ymysg oll o'u unedau, gyda sawl aelod wedi manteisio ar y cyfle ac mae'r cwrs bellach yn fandadol ar gyfer aelodau newydd i Ddesg Gymorth y Gwasanaeth Dysgu Digidol.<br><br>**Grŵp Defnyddwyr**<br>Sefydlwyd Grŵp Defnyddwyr ar gyfer system sydd wedi ei greu gan uned ddatblygu y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i gynnal Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) oddi fewn y maes Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCh). Mae hwn yn ddarpariaeth statudol gyda chyrff eraill yn manteisio ar ddefnyddio'r system sydd wedi ei ddarparu gan Cyngor Gwynedd a gan ei fod yn newydd, sefydlwyd Grŵp Defnyddwyr i leisio barn a llywio dyfodol y cynnyrch. Mae'r aelodaeth yn frith o Gynghorau o Fôn i Benybont a cholegau ar draws Cymru, gyda gweithgaredd y grŵp yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a'r cyfarfodydd rhithiol yn dwyn ar wasanaeth cyfieithu ar y pryd gan wahodd a hyrwyddo trafodaethau yn y Gymraeg.<br><br>**Defnydd dydd-i-ddydd**<br>Rydym yn ymfalchïo fod yr holl adran yn darparu ei wasanaethau trwy'r Gymraeg a credwn fod y gallu i weithio o ddydd-y-ddydd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn gymorth mawr wrth ddenu a phenodi staff newydd. Mae gennym dystiolaeth fod y diwylliant yma wedi meithrin hyder nifer o'n staff newydd gan gryfhau eu ddefnydd o'r iaith. |

| | |
|---|---|
| | **Archwilio Cymru**<br>Mae swyddogion yr Adran yn cynnal cyfarfodydd yn uniaith Gymraeg gyda swyddogion Archwilio Cymru. Credwn fod hyn wedi rhoi ysgogiad i Archwilio Cymru gryfhau'r eu trefniadau o'r Gymraeg a credwn fod hyn wedi bod yn gyfle i staff Archwilio Cymru ddatblygu eu Cymraeg hefyd a gwneud mwy o defnydd ohono.<br><br>**Darpariaeth cyfrifiaduron i Ysgolion Gwynedd**<br>Fe sefydlwyd y Gwasanaeth Dysgu Digidol i ddarparu arweinyddiaeth a chefnogaeth ddigidol i ysgolion y Sir ar gychwyn Ebrill 2022 a'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd ar waith.<br><br>Mae gliniadur bellach wedi ei gyflwyno i bob athro, a'r gwaith o gyflwyno gliniadur i bob disgybl uwchradd (Bl 7 -11) ar waith, gydag iaith diofyn pob gliniadur yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg.<br><br>**Y Dyfodol**<br>Dros y flwyddyn nesaf bydd yr Adran Gyllid yn:<br>• Cynnal trafodaethau cychwynnol ynglŷn ag anelu at weithio tuag at gael achrediad "Buddsoddwyr Mewn Pobl", a bydd yr elfen gwaith sy'n ymwneud ar Iaith Gymraeg yn rhan sylweddol o'r dasg yma.<br>• Dros y flwyddyn diwethaf rydym fel Adran wedi dechrau gweithio'n agos â'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg o'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Byddwn yn parhau i gryfhau'r cydweithio yma dros y flwyddyn nesaf. |

**Adroddiad Monitro Drafft Cynllun Hybu 2018-2023**

**Adroddiad diwedd cyfnod 5 mlynedd**

DRAFFT

## 1. Cefndir

Cyflwynwn yma adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith monitro ar gyfer gweithredu strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023.

Adroddiad cychwynnol yw hwn, a chanlyniad y gwaith adolygu ac adlewyrchu sydd wedi digwydd ochr yn ochr gyda datblygu'r strategaeth iaith nesaf ar gyfer 2023 ymlaen.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i fanylu ar rai gweithgareddau ac i ddangos effaith yr ymyraethau a gynhaliwyd mewn ymateb i'r amcanion.

Mabwysiadwyd y Cynllun Hybu yn ystod Hydref 2018, gan osod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer sut y gellir hybu'r Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer y pum mlynedd i ddilyn.

Roedd y strategaeth yn gosod nod cyffredinol, tymor hir, i weld canran siaradwyr Gwynedd yn codi yn ôl at y 70%.

Gan fod y strategaeth wedi ei chyhoeddi mor agos at flwyddyn y cyfrifiad diwethaf, nid oedd hwn yn nod yr oeddem yn disgwyl ei weld yn cael ei wireddu cyn y cyfrifiad hwnnw, nac yng nghyfnod y strategaeth, ond yn hytrach yn nod tymor hir ac yn weledigaeth ar gyfer gwarchod y Gymraeg yn y sir i'r dyfodol.

Roedd y strategaeth hefyd yn gosod targed yng nghyd-destun defnydd disgyblion ysgol o'r Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar gyfer magu hyder unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Bu cyfnod gweithredu'r Cynllun Hybu yn un heriol am sawl rheswm. Yr un amlycaf o'r rhain oedd cyfnod pandemig Covid 19. Yn amlwg roedd y cyfnodau hir o ynysu a pheidio cymdeithasu ac ymwneud efo gweithgareddau cymunedol yn newid anferth, ac yn cael effaith fawr ar y cyfleoedd oedd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Bu'r effaith ar y byd addysg yn sylweddol hefyd, gydag ysgolion yn gorfod addasu dros nos i heriau ac amgylchedd dysgu gwahanol.

Mae'r cyfnod yma hefyd wedi newid arferion pobl yn sylweddol, wedi cynyddu dylanwad technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol ar ein bywydau, ac wedi arwain at newidiadau a heriau newydd yn ein cymunedau daearyddol hefyd, sydd yn ei dro yn cael effaith ar ffyniant ieithyddol.

Gyda newid mor arwyddocaol wedi bod yng nghanol y cyfnod gweithredu, mae'n anorfod na fu gweithredu o gwbl ar rai o'r amcanion a'n bod wedi gorfod newid blaenoriaethau wrth fynd ac mewn ymateb i sefyllfaoedd newydd. O ganlyniad i hyn, a'r wasgfa ar adnoddau yn gyffredinol, bu'n her sefydlu trefniadau monitro manwl a chadarn ar gyfer y Cynllun Hybu. O ganlyniad, dim ond rhan o'r darlun yw'r hyn a welir o fewn yr adroddiad monitro yma.

Serch hynny, rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn dangos ein bod fel Cyngor wedi gallu gweithredu yn gyson ar y rhan fwyaf o'r amcanion a osodwyd yn y Cynllun Hybu. Mae nifer o wasanaethau yn cynnal gweithgareddau cyson mewn gwahanol leoliadau ar draws y sir, ac

oherwydd cryfder y Polisi Iaith, mae'r gweithgareddau hynny drwyddi draw yn cael eu cynnal yn Gymraeg.

Mae nifer fawr o ystadegau wedi eu casglu gan wasanaethau'r Cyngor, felly, sydd yn dangos y gweithgarwch cyfrwng Cymraeg cyson sydd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor i gyfrannu at ddefnydd dyddiol pobl o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

## 2. Atebolrwydd a threfniadau adrodd mewnol

Mae adrannau a gwasanaethau'r Cyngor yn adrodd ar eu gwaith mewn nifer o ffyrdd. Roeddem yn ymwybodol iawn wrth geisio monitro gweithrediad y strategaeth hon nad oeddem am ddyblygu gwaith ac ychwanegu at lwyth gwaith adrodd y gwasanaethau. Rydym wedi ceisio hyd y gallwn felly gasglu gwybodaeth o'r gwahanol ffynonellau y mae adrannau yn adrodd ar hyn o bryd. Rhown drosolwg yma o'r gwahanol ddulliau adrodd ar gyfer y gweithgareddau a chynlluniau oedd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth.

- ***Casglu data blynyddol am weithgareddau***
  Cafodd nifer o weithgareddau penodol eu hadnabod dan bob maes gweithredu lle roeddem yn ymwybodol bod data eisoes yn cael ei gasglu yn flynyddol. Rydym wedi casglu'r data yma ar gyfer pob blwyddyn, a hwn yw'r prif ddata a welwch yn y tablau yn yr adroddiad hwn.
- ***Adroddiadau monitro Grant y Gymraeg***
  Mae'r fenter iaith yn gweithredu rhaglen waith sydd wedi ei chytuno rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru, ac yn cael ei hariannu drwy grant blynyddol gan y Llywodraeth. Fel rhan o amodau'r grant hwnnw, mae adroddiadau rheolaidd wedi bod yn cael eu cynhyrchu sydd yn manylu ar y gwaith ac yn adrodd yn feintiol ar nifer gweithgareddau a mynychwyr.
- ***Herio Perfformiad***
  Mae unrhyw brosiectau sydd wedi eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor yn adrodd yn rheolaidd drwy gyfarfodydd herio perfformiad mewnol. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar ddata allweddol ac am unrhyw rwystrau sydd yn atal datblygiad neu yn arafu cynnydd y prosiect.
  Mae pob Aelod Cabinet hefyd yn adrodd ar waith prif gynlluniau'r Cyngor drwy eu hadroddiadau i'r Cabinet.
- ***Adroddiadau Adrannol Pwyllgor Iaith***
  [Pwyllgor Iaith (llyw.cymru)]
  Mae pob adran o fewn y Cyngor bellach yn paratoi adroddiad unwaith y flwyddyn i'w gyflwyno i Bwyllgor Iaith y Cyngor. Mae'r adroddiadau hyn yn gyfle iddynt ddangos sut y maent yn datblygu sgiliau iaith y gweithlu, yn cydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg, ac hefyd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith. Mae'r adroddiadau hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i adnabod prosiectau neu ffrydiau gwaith na fyddai'r Uned Iaith a Chraffu wedi gwybod amdanynt fel arall. Cychwynnwyd y broses yma yn ystod blwyddyn 2021-22, felly mae dau adroddiad wedi bod gan bob adran hyd yma, ac rydym bellach yng nghanol y trydydd cylch adrodd.
- ***Adroddiadau blynyddol Cynlluniau strategol***
  Mae gan gynlluniau megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg eu trefniadau monitro blynyddol eu hunain.
- ***Fforymau a byrddau prosiect***
  Mae nifer o grwpiau mewnol ac allanol yn bodoli er mwyn monitro cynnydd prosiectau unigol. Mae byrddau prosiect wedi ei creu ar gyfer gwaith y Dynodiadau Iaith, sef prosiect

monitro sgiliau iaith y gweithlu yn y Cyngor, y Prosiect Enwau Lleoedd a Phrosiect 15 Mae grŵp mewnol hefyd wedi ei sefydlu o fewn cyfnod olaf y strategaeth iaith i edrych ar weithrediad Mwy na Geiriau o fewn y Cyngor. Mae'r grwpiau hyn yn cadw golwg ar weithredu mewn meysydd penodol ac yn sicrhau bod cynnydd priodol yn cael ei wneud yn erbyn targedau a rhaglenni gwaith.

## 3. Gwersi a ddysgwyd

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn edrych yn ôl ar gyfnod y Cynllun Hybu ac yn datblygu'r strategaeth iaith nesaf ar gyfer y cyfnod 2023 ymlaen ar yr un pryd. Mae'r adlewyrchu ar yr hyn weithiodd a'r hyn na weithiodd cystal, o ran gweithredu a monitro, wedi ein helpu wrth feddwl ymlaen a chynllunio yn well ar gyfer y strategaeth nesaf.

Mae nifer o bethau y bydd angen i'r Cyngor weithio arnynt a'u datblygu ar gyfer cyfnod y strategaeth nesaf, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu casglu'r dystiolaeth angenrheidiol i ddangos effaith a llwyddiant y strategaeth. Mae nifer fawr o heriau wedi bod wrth geisio gwneud hyn gyda'r Cynllun Hybu.

**3.1 Cysondeb yn y math o ddata a gesglir** – er enghraifft, ceisio sicrhau bod pob prosiect neu wasanaeth sydd yn cyfrannu at faes gweithredu penodol yn adrodd yr un pethau.

**3.2 Gwella cydweithio gyda phartneriaid allanol**. - Roeddem yn ymwybodol iawn na fyddai modd i'r Cyngor weithredu amcanion y strategaeth ar ei ben ei hun ac y byddai angen sicrhau cydweithio effeithiol o gyrraedd y nod. Er bod cydweithio da yn digwydd mewn sawl maes, efallai nad ydym wedi canfod ffyrdd o ddal hynny mewn ffordd sydd yn rhoi tystiolaeth i ni o'r cydweithio hynny a'r canlyniadau sydd yn deillio ohono. Bu ailafael mewn unrhyw drafodaethau cydweithio ar ôl cyfnod y pandemig yn anodd hefyd mewn rhai achosion, gyda sefydliadau yn canolbwyntio ar eu blaenoriaethau eu hunain.

**3.3 Cynnal y berthynas efo'r fenter iaith** - Rydym wedi bod yn ddibynnol iawn yn ystod cyfnod y Cynllun Hybu ar weithgareddau Hunaniaith, y fenter iaith, yn enwedig felly ym maes Iaith y Gymuned. Bydd y fenter iaith yn symud allan o'r Cyngor, ac yn sefydlu ei hun fel endid annibynnol, yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth iaith newydd, a bydd angen i'r Cyngor sicrhau eu bod yn cynnal perthynas agos gyda'r fenter, ond hefyd eu bod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am weithredu eu hunain yn y maes cymunedol.

**3.4 Asesu cynnydd a chyfraniad prosiectau strategol** – mae casglu tystiolaeth gadarn am effaith rhai o'r cynlluniau mawrion sydd gan y Cyngor ar waith (a sydd yn cyfrannu at ffyniant neu warchodaeth y Gymraeg yng nghymunedau'r sir) yn anodd oherwydd eu natur hir-dymor. Mae rhywfaint o waith wedi ei wneud ar sefydlu modelau mesur effaith, ond nid ydynt wedi eu rhoi ar waith eto, a bydd angen edrych ar hyn ar gyfer cyfnod y strategaeth nesaf.

**3.5 Angen i allu addasu blaenoriaethau** – Mae cyfnod y pandemig wedi dangos i ni sut y gall amgylchiadau newid yn sylweddol mewn cyfnod byr iawn. Mae 5 mlynedd yn gallu swnio yn gyfnod byr o ran cynllunio ieithyddol ac o ran dangos effaith ymyraethau sydd yn aml yn rhai tymor hirach. Mae'n glir ein bod wedi gorfod gadael rhai amcanion a nodwyd yn y Cynllun Hybu oherwydd bod y cyd-destun a blaenoriaethau'r Cyngor wedi gorfod newid mewn cyfnod byr. Bydd yn bwysig bod y weledigaeth a'r amcanion o fewn y strategaeth nesaf yn

DRAFT

ddigon eang fel nad yw'r Cyngor yn gadael ei hun yn agored i fethu gweithredu, ac mai addasu'r rhaglen waith gysylltiol yn unig fydd angen ei wneud yn hytrach na'r strategaeth ei hun dros y cyfnod o 10 mlynedd.

DRAFFT

## 4. Adrodd ar ganlyniadau

Yn yr adran hon, rhown drosolwg o'r hyn fu'n cael ei weithredu dan bob maes blaenoriaeth yn y Cynllun Hybu, ynghyd â thabl sydd yn cynnwys y data meintiol sydd wedi ei gasglu yn ystod y bum mlynedd.

### 4.1 Maes Blaenoriaeth 1 -Iaith y teulu

Y bwriad ar gyfer y maes hwn oedd canfod ffyrdd o roi'r cychwyn gorau i bob plentyn a sicrhau bod patrymau iaith cadarnhaol yn cael eu gosod o'r cychwyn.

Roedd hunaniaith wedi bod yn cynnal **gweithgareddau cymunedol i deuluoedd a phlant ifanc** ers rhai blynyddoedd, ond un o'r prif bethau roeddem eisiau edrych arno yn ystod cyfnod y Cynllun Hybu oedd sut y gallem **gefnogi gweithwyr gofal a darparwyr gweithgareddau cymunedol** a rhoi'r wybodaeth iddynt fod yn gallu trosglwyddo negeseuon cadarnhaol i rieni am werth dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, ac hefyd sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau a'u lleoliadau gofal eu hunain. Mae cydweithio da wedi bod efo Cymraeg i Blant a gwasanaeth blynyddoedd cynnar y Cyngor i drefnu seminarau blynyddol i roi sylw i hyn. Mae data am y gweithgaredd i'w weld isod.

Mae gwasanaeth **Llyfrgelloedd Gwynedd** yn leoliadau cymunedol hollbwysig, ac maent yn chwarae rôl bwysig iawn wrth gynnig gweithgareddau sydd wedi eu targedu yn benodol at famau newydd a'u babanod. Mae sesiynau stori a chwarae wythnosol yn cael eu cynnal yn holl leoliadau'r sir a phob un o'r rheiny yn cael eu cynnig yn Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd cymdeithasu pwysig, yn ogystal â chyfle i gyflwyno'r iaith i'r babanod.

Roeddem hefyd yn awyddus i **ddatblygu dealltwriaeth ymysg rhieni am werth trosglwyddo'r Gymraeg i blant**, ac o fanteision amlieithrwydd. Mae nifer o bartneriaid allanol yn gwneud gwaith ardderchog yn y maes yma, ond mae'r adran addysg hefyd wedi datblygu adnoddau ar fanteision dwyieithrwydd ar gyfer eu rhannu gydag ysgolion ac sydd ar gael ar yr Hwb Siarter Iaith at ddefnydd pawb.

Gwybodaeth AGC o ran nifer darparwyr gofal plant y Sir sydd yn nodi eu bod yn ddarpariaeth Cymraeg neu Dwyieithog:

| | Cymraeg | Dwyieithog | Saesneg |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr | 22 | 14 | 10 |
| Meithrinfeydd | 11 | 6 | 2 |
| Cylchoedd Meithrin | 56 | 1 | - |
| Clwb ar ôl Ysgol | 8 | 5 | - |

Isod nodir y data a gaiff ei adrodd fel rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg am gylchoedd meithrin Gwynedd.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2018-19 (Dim data 2019-20 ar gael yn sgil COVID):

| Ardal | Nifer Cylchoedd Meithrin | Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg | |
|---|---|---|---|
| Arfon | 28 | 834 | 99.3% |
| Dwyfor | 18 | 301 | 100% |
| Meirionnydd | 19 | 346 | 100% |

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2021-22:

| Ardal | Nifer Cylchoedd Meithrin | Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg | |
|---|---|---|---|
| Arfon | 27 | 496 | 100% |
| Dwyfor | 15 | 172 | 100% |
| Meirionnydd | 19 | 186 | 100% |

DRAFFT

**Data Meintiol Iaith y Teulu**

| **Maes Blaenoriaeth:**<br>**Iaith y teulu** | **2018-19/19-20**<br>(2018-19 hanner blwyddyn ar ôl cyhoeddi felly cyfunwyd y ffigyrau ar ddiwedd y flwyddyn llawn gyntaf) | **2020-21**<br>(cofier bod hyn yng nghyfnod y pandemig a bod cyfyngiadau wedi effeithio ar yr hyn oedd yn bosib ei wneud) | **2021-22** | **2022-23** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Nifer digwyddiad teuluol wedi eu cynnal gan wasanaethau llyfrgelloedd y Cyngor, gwasanaeth Dechrau'n Deg a'r fenter iaith (hunaniaith) | 76<br><br>Amcan o tua 550 o deuluoedd wedi mynychu.<br>Tua 20 teulu yn y sesiynau llyfrgell yn cael gweithgareddau rheolaidd. | Dim gweithgareddau wyneb yn wyneb yn y llyfrgelloedd. Menter iaith wedi cynnal gweithgareddau ar-lein. Uned Iaith - Uchafbwyntiau 2020-21 Hunaniaith.pdf - Pob Dogfen (sharepoint.com) | **3** gweithgaredd, **25** teulu – hunaniaith<br>**107** digwyddiad llyfrgell<br><br>**788** mynychwyr (tua 370 teulu?) | **127** gweithgaredd llyfrgell<br><br>**1072** mynychwr (tua 500 teulu?) |
| Nifer digwyddiadau hyfforddi ar gyfer gweithwyr blynyddoedd cynnar (dan ofal Hunaniaith) | **6** gweithdy<br>**60** o fynychwyr | **2** weithdy<br>**18** mynychwr | **1** gweithdy<br>**19** yn mynychu | **1** digwyddiad<br>**3** mynychwr |
| Nifer gweithgareddau rheolaidd Dechrau'n Deg i deuluoedd | Grŵp Tots – 8 sesiwn y tymor ym mhob ardal<br>Grwpiau Camau Bach = 8 sesiwn y tymor ym mhob ardal<br><br>30 diwrnod hwyl | Camau bach – **8** sesiwn rhithiol<br>**6** teulu.<br><br>**9** sesiwn diwrnod hwyl y tu allan | **8** sesiwn (ardal Dolgellau)<br>**3** teulu<br><br>**9** sesiwn diwrnod hwyl | **16** bloc o grwpiau<br>**174** o blant wedi mynychu<br><br>**20** sesiwn hwyl<br>**136** teulu wedi mynychu |
| Canran plant sydd yn derbyn gofal mewn lleoliadau efo darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 86.5% | Niferoedd sydd wedi derbyn 10 awr yr wythnos o | Niferoedd plant sydd wedi derbyn 10 awr yr wythnos | Niferoedd plant sydd wedi derbyn 10 awr yr wythnos o Addysg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (lleoliadau gofal a reolir gan y Cyngor?) | | Addysg Feithrin cyfrwng Cymraeg: **384**. Niferoedd plant Dechrau'n Deg sydd wedi mynychu lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg fesul tymor = **642**: Niferoedd plant sydd wedi mynychu lleoliad gofal plant Cymraeg neu dwyieithog ar y Cynnig Gofal Plant Cymru: Cymraeg=**553**. Dwyieithog=**237**. | o Addysg Feithrin Cyfrwng Cymraeg: **442**. Niferoedd plant Dechrau'n Deg sydd wedi mynychu lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg fesul tymor: Tymor 1= **201**. Tymor 2= **198**. Tymor 3= **187**. Niferoedd plant sydd wedi mynychu lleoliad gofal plant Cymraeg neu dwyieithog ar y Cynnig Gofal Plant Cymru : Cymraeg= **585**. Dwyieithog= **256**. | Feithrin cyfrwng Cymraeg: **422**. Niferoedd plant Dechrau'n Deg sydd wedi mynychu lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg fesul tymor: Tymor 1= **241**. Tymor 2= **214**. Tymor 3= **202**. Niferoedd plant sydd wedi mynychu lleoliad gofal plant Cymraeg neu dwyieithog ar y Cynnig Gofal Plant Cymru: Cymraeg=**890**. Dwyieithog **197** |
| | | | | |

DRAFT

### 4.2 Maes Blaenoriaeth 2: Iaith Dysgu

Bu cyfnod y pandemig yn un arbennig o heriol i'r maes addysg, gan arwain at newidiadau enfawr yn y dulliau dysgu, ond hefyd newidiadau mawr d yn y dulliau casglu data. Yn sgil y ffaith fod ysgolion ar draws Cymru wedi cau, a'r cwricwlwm wedi ei oedi, yn ystod haf 2020, er enghraifft, nid oedd modd cynnal asesiadau dysgwyr, ac ni gynhaliwyd arholiadau allanol megis TGAU a Safon Uwch yn ôl yr arfer. O ganlyniad, nid oes data meintiol ar gael fel rhan o'r adroddiad adolygu blynyddol CSGA ar gyfer 2019-20.

Serch y diffyg data am nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio a derbyn achrediadau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion, ac hefyd ystadegau am gynnydd yn sgiliau rhwng cyfnodau allweddol, mae sawl datblygiad allweddol wedi bod yn y maes hwn dros gyfnod y Cynllun Hybu.

Rhoddwn sylw yn hytrach yma felly i ddatblygiadau strategol pwysig sydd wedi digwydd yn y maes dros gyfnod y Cynllun ac a fydd yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygu defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg yn y dyfodol.

**Datblygu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Ym mis medi 2022, cyhoeddwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan yr adran ar gyfer y cyfnod o ddeng mlynedd hyd at 2032. Bydd canlyniadau monitro'r CSGA newydd yn cael eu cynnwys yn adroddiadau monitro'r strategaeth iaith newydd.

Cafodd Polisi Iaith newydd ei lunio a'i rannu gyda chyrff llywodraethu pob ysgol gynradd ac uwchradd yn y sir, sydd yn adlewyrchu'r disgwyliadau a'r uchelgais o ran defnydd ysgolion o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysg.

**"Cynnydd yn nifer y bobl ifanc oedd yn dewis astudio a derbyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg."**

Roedd y Cynllun wedi nodi'r uchod fel un flaenoriaeth ym maes iaith Dysgu, oedd yn adleisio'r ymrwymiad yn y CSGA bod y Cyngor yn dymuno gweld "*Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg*."

Yn ystod 2022 bu i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi adnabod bod angen rhoi sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgolion Uwchradd y Sir. Penderfynwyd cynnal ymchwiliad oedd yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol, ystyried beth allai rwystro'r Awdurdod rhag cyflawni'r targedau a gwneud argymhellion.

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ac argymhellion yn ystod Medi 2023.

Roedd y canfyddiadau yn galonogol, gan ddangos bod 97.6% o'r dysgwyr CA3 yn y tair ysgol yn dilyn 80% neu fwy o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a bod 87% yn astudio o leiaf 5 pwnc heblaw Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd yn glir ymrwymiad yr ysgolion dan sylw i annog dysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i weithredu yn unol â'u Polisi Iaith. Mae Polisi Iaith ysgolion uwchradd Gwynedd yn ganolog i'r ddarpariaeth yn yr ysgolion.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion, oedd yn cynnwys sefydlu trefniadau newydd ar gyfer casglu data am gyfrwng iaith astudio, gosod targedau penodol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob ysgol uwchradd yn y sir, bod yr awdurdod yn parhau i gydweithio

gyda'r ddwy ysgol categori 3T yn y sir er mwyn cyflymu eu taith i fod yn ysgolion categori 3, a bod cydweithio agosach gyda phartneriaid fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bydd gweithredu ar yr argymhellion hyn yn rhan o'r strategaeth iaith newydd.

Gellir gweld adroddiad llawn yr ymchwiliad a'r argymhellion yma:

[Eitem 6 - Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd.pdf (llyw.cymru)]

**Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd. Roedd hyn yn dilyn proses hir o adolygu'r gwasanaeth ac ystyried anghenion y dyfodol, oedd wedi cychwyn cyn y cyfnod clo. Mae'r weledigaeth newydd yma yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog.

Mae grant refeniw Trochi Hwyr, Llywodraeth Cymru hefyd yn galluogi'r Adran Addysg i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi yng nghanolfannau'r sir. Bellach mae cynllun trochi Aberwla wedi ei ddatblygu, sy'n gynllun gwahaniaethol sy'n pontio'r cynradd a'r uwchradd. I gyd-fynd â'r cynllun mae'r prosiect arloesol digidol sy'n gosod cynllun Aberwla a'r cymeriadau ar lwyfan VR y byd rhithiol. Ar 7 Gorffennaf, 2023, cynhaliwyd hyfforddiant ar gais Llywodraeth Cymru i rannu'r adnodd arloesol hwn yn genedlaethol. Yn sgil yr hyfforddiant, disgwylir i awdurdodau eraill dreialu'r adnodd a chynnig adborth i ddatblygu a grymuso'r prosiect ymhellach. Cynhaliwyd lansiad llwyddiannus o'r adnodd hefyd ar stondin Gwynedd 5 brynhawn Mawrth, 8 Awst ar faes Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.

**Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r Gymraeg fel sgil**

Bu Hunaniaith yn gweithredu ar y flaenoriaeth hon yn ystod cyfnod y Cynllun drwy gynnal sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith gyda grwpiau o ddisgyblion yn yr ysgolion, ac hefyd drwy drefnu 4 cynhadledd flynyddol ar y cyd gyda Grŵp Llandrillo Menai oedd yn rhoi sylw i feysydd gwaith penodol ac yn gwahodd unigolion o'r meysydd hynny – megis y diwydiannau creadigol a maes gofal – i siarad am eu profiadau a pham fod y Gymraeg yn rhan greiddiol o'u gwaith.

Cafodd fideo ymwybyddiaeth ei ddatblygu yn benodol ar gyfer pobl ifanc hefyd, ac mae cydweithio wedi bod efo ysgolion y sir ar sawl prosiect oedd yn rhoi cyfleoedd i'r bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'w gwersi ffurfiol. Un enghraifft o hyn oedd Cwis Dim Clem, oedd yn cael ei redeg gan Mentrau Iaith Cymru, a'i gydlynu ar lefel leol gan swyddogion Hunaniaith.

**Siarter a Strategaeth Iaith**

Mae dau gynllun yn bodoli yng Ngwynedd i annog defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarthiadau – Siarter iaith ysgolion Cynradd ([fframwaith-siarter-iaith.pdf (gov.wales)]), a Strategaeth iaith Uwchradd [Strategaeth Iaith Uwchradd (llyw.cymru).]

Nid yw wedi bod yn bosib cael data meintiol ar gyfer y gwaith hwn ar gyfer cyfnod y Cynllun Hybu, ond rydym yn ymwybodol bod y ddau brosiect yn weithgar iawn a bod cynghorau a fforymau iaith wedi eu sefydlu ym mron pob ysgol er mwyn i lais y disgyblion fod wrth graidd unrhyw ymdrechion i hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg y bobl ifanc.

Cydnabyddir y bu sefydlu Fforwm Iaith yn yr ysgolion uwchradd yn gam cadarnhaol i gynnwys llais y dysgwyr. Yn un o'r ysgolion, dysgwyr ym mlwyddyn 11 sydd yn gyfrifol am y Fforwm Iaith. Nodwyd mai prif nod y Fforwm yw trefnu a chynnal gweithgareddau sydd yn annog disgyblion i siarad Cymraeg. Mae cael dysgwyr i gymryd perchnogaeth o drefnu gweithgareddau a hybu'r iaith yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr.

**Gwybodaeth bellach:**

Mae'r Adran Addysg yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Bwyllgor Iaith y Cyngor, sydd efo cyfrifoldeb dros oruchwylio gweithrediad strategaeth iaith y Cyngor. Gwelir isod yr adroddiadau a gyflwynwyd ar weithrediad y CSGA, a'r adroddiadau o dan y drefn newydd lle bydd adrannau unigol yn adrodd ar unrhyw weithgarwch i hybu'r Gymraeg o fewn eu gwasanaethau.

Pwyllgor Iaith Ionawr 2020- Adroddiad Adolygu Blynyddol ar Weithrediad CSGA Gwynedd ar gyfer 2018-19.pdf (llyw.cymru)

Pwyllgor Iaith Ionawr 2021 - ADRODDIAD ADOLYGU BLYNYDDOL CSGA.pdf (llyw.cymru)

Adroddiad Hybu'r Gymraeg Adran Addysg - Pwyllgor Iaith Ionawr 2022.pdf (llyw.cymru)

Adroddiad Hybu Adran Addysg - Pwyllgor Iaith Ionawr 2023.pdf (llyw.cymru)

**Data Meintiol Iaith Dysgu**

| **Maes Blaenoriaeth:**<br>**Iaith dysgu** | **2018-19/19-20**<br>(2018-19 hanner blwyddyn ar ôl cyhoeddi felly cyfunwyd y ffigyrau ar ddiwedd y flwyddyn llawn gyntaf) | **2020-21**<br>(cofier bod hyn yng nghyfnod y pandemig a bod cyfyngiadau wedi effeithio ar yr hyn oedd yn bosib ei wneud) | **2021-22** | **2022-23** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Nifer cyfleoedd dysgu estynedig | **17** Prentis<br>**15** Hyfforddai<br>**32** cyfle Profiad gwaith<br>**24** o bobl ifanc wedi cael achrediadau drwy'r gwasanaeth ieuenctid | **10** Prentis<br>**6** hyfforddai | **11** Prentis<br>**5** hyfforddai | **20** prentis/hyfforddai |
| Ymwybyddiaeth iaith gwaith a sgiliau | **1** cynhadledd, **46** o bobl ifanc<br><br>**6** gweithgaredd YI, **145** o bobl ifanc | **1** cynhadledd, **27** o bobl ifanc | **1** cynhadledd, **72** unigolyn | Heb gynnal |

### 4.3 Maes Blaenoriaeth 3: Iaith Gwaith a Gwasanaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn ymfalchïo mewn gallu cynnig ei holl wasanaethau yn rhagweithiol ddwyieithog. Rydym serch hynny yn sylweddoli nad yw nifer o'n partneriaid yn y sector cyhoeddus yn gallu gwneud hynny yn ddi-dor. Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn dewis peidio defnyddio'r hawl sydd ganddynt i wasanaethau Cymraeg bob amser.

Roeddem wedi dweud ein bod am edrych ar ffyrdd i gynyddu defnydd pobl o wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae hwn yn sicr yn flaenoriaeth a gafodd ei oedi yn sgil cyfnod y pandemig, ond lle mae gwaith wedi ei wneud i annog pobl i ddefnyddio eu hawliau ac hefyd i ddeall arferion er mwyn gallu cynllunio ymyraethau yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi bod yn rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o **Ddiwrnod Hyrwyddo Hawliau'r Comisiynydd**, er mwyn ceisio annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle posib wrth ymwneud efo'r Cyngor.

Yn ystod cyfnod olaf y strategaeth, dechreuwyd ar waith pwysig i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Mae'r Cyngor yn cyd-ariannu prosiect **ymchwil Phd** gyda Phrifysgol Bangor fydd yn ymchwilio i agweddau pobl tuag at wasanaethau Cymraeg a'r gobaith yw y bydd yn rhoi syniadau i'r Cyngor am ymyraethau y gellir eu gweithredu i gynyddu defnydd. Bydd y gwaith ymchwil yma yn parhau i gyfnod y strategaeth iaith newydd.

Bu i Is-Grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau hefyd gomisiynu darn o waith ymchwil fyddai yn helpu'r sefydliadau sydd yn aelodau o'r Bwrdd i ystyried sut i annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser yn eu cyswllt cyntaf gyda chyrff cyhoeddus. Cynhaliwyd gwaith arsylwi mewn gwahanol sefydliadau a rhoddwyd argymhellion i aelodau'r Bwrdd am gamau y gellir eu cymryd i wella'r dewis Cymraeg yn y cyswllt cyntaf gyda defnyddwyr gwasanaethau. Y gobaith yw y bydd sefydliadau unigol yn ymateb i'r gwaith ymchwil yma ac yn gweithredu ar yr argymhellion yn ystod cyfnod y strategaeth nesaf.

O safbwynt datblygu sgiliau iaith gweithlu y Cyngor ei hun, rhoddwyd pwyslais mawr yn ystod cyfnod y Cynllun Hybu ar weithredu'r prosiect **Dynodiadau Iaith**, sef prosiect sydd wedi trawsnewid y ffordd mae gofynion iaith yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses recriwtio yn y Cyngor. Mae trefniadau cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer asesu gofynion iaith pob swydd o fewn y Cyngor, ac hefyd ar gyfer asesu lefel sgiliau iaith pob aelod o staff. Mae hyn yn golygu bod gennym well ddealltwriaeth o lawer o ofynion hyfforddiant a datblygu ein staff. Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cyfrannu data i adroddiad blynyddol y Safonau ac yn cyflwyno Adroddiad Hyfforddiant blynyddol i Bwyllgor Iaith y Cyngor bob mis Mehefin sydd yn cynnwys mwy o wybodaeth am y modd mae'r Cyngor yn cefnogi dysgwyr.

Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2021-2022.pdf (llyw.cymru)

Adroddiad Safonau 2020-21.pdf (llyw.cymru)

Bu'r Cyngor hefyd yn rhan o beilota prosiect ymchwil a newid ymddygiad Prifysgol Bangor, **Arfer** (Y Rhaglen ARFer, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor) sydd yn gweithio gyda thimau gwaith lle mae'r iaith cyfathrebu wedi cychwyn neu droi i'r Saesneg, a hynny er mwyn ceisio sefydlu patrymau iaith newydd ac annog y Gymraeg fel prif iaith cyfathrebu. Bu un tîm o adran Ymgynghoriaeth y Cyngor

yn rhan o'r prosiect peilot cyn y cyfnod clo, ac mae timau eraill wedi gwneud ymrwymiad erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.  Bydd y gwaith yma yn parhau i gyfnod y strategaeth nesaf.

Mae **cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sector breifat** yn her barhaol.  Nid oes llawer o rymoedd gan y Cyngor i orfodi defnydd, ac felly rydym yn ddibynnol i raddau helaeth ar ewyllys da perchnogion ac ar geisio eu perswadio bod manteision i ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog.  Mae Hunaniaith wedi gweithio gyda busnesau ar lefel gymunedol, gan eu hannog i wneud newidiadau bychain a gweithio gyda nhw i gynnal gweithgareddau cymunedol Cymraeg.  Maent hefyd wedi rhoi sylw i fusnesau sydd yn gwneud defnydd da o'r Gymraeg, er mwyn rhoi bri a statws i'r busnesau hynny.  Mae nifer o fusnesau wedi cael sylw fel rhan o ymgyrch Busnes y Mis yn ystod cyfnod y Cynllun.

**Gwasanaethau'r Cyngor yn ymateb i heriau recriwtio:**

Mae problemau recriwtio i weld yn cynyddu, gyda nifer o adrannau yn nodi yn eu hadroddiadau i'r Pwyllgor Iaith bod recriwtio pobl gyda'r sgiliau ieithyddol cywir yn gallu bod yn heriol mewn rhai meysydd gwaith.

Ond mae nifer o wasanaethau ac adrannau hefyd yn cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael a'r heriau hyn, ac mae'r Cyngor wedi sefydlu prosiect Cynllunio Gweithlu, sydd yn ceisio rhagweld y problemau hyn ar gyfer y dyfodol.  Gwelir isod ddarn o adroddiad yr Adran Addysg i Bwyllgor Iaith y Cyngor, yn esbonio sut y maent wedi mynd i'r afael a'r heriau mewn un maes gwaith penodol.

*"Mae'r gwasanaeth Arlwyo a Glanhau wedi bod yn allweddol drwy gydol y pandemig er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Mae heriau staffio yng nghyd-destun salwch tymor hir, effeithiau Covid ac anawsterau recriwtio yn effeithio'n ddyddiol ar y gwasanaeth yma, ac mae heriau i sicrhau gweithlu hyfedr yn y Gymraeg mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth wedi manteisio ar gynllun Kickstart, Llywodraeth Cymru i gynnig lleoliadau gwaith o fis Ionawr ymlaen ar gyfer pobl ifanc oedran 16-24 sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol ac sydd mewn risg o ddiweithdra tymor hir. Fel rhan o becyn penodi staff rydym yn gofyn i bob aelod o staff y gwasanaeth Arlwyo a Glanhau gwblhau holiadur asesiad iaith er mwyn gweld eu lefel o ddealltwriaeth yn yr iaith ac os oes angen cymorth arnynt i wella ei sgiliau. Bydd y gwasanaeth yn cydweithio gyda Dysgu a Datblygu i ganfod darpariaeth addas i wella sgiliau iaith y staff. Ar hyn o bryd, ceir rhai enghreifftiau o staff y gwasanaeth yn dewis dilyn unedau hunan-astudio ar lein i wella eu sgiliau Cymraeg."*

DRAFT

**Data Meintiol Iaith Gwaith a Gwasanaeth**

| **Iaith gwaith a gwasanaeth** | **2018-19/19-20**<br>(2018-19 hanner blwyddyn ar ôl cyhoeddi felly cyfunwyd y ffigyrau ar ddiwedd y flwyddyn llawn gyntaf) | **2020-21**<br>(cofier bod hyn yng nghyfnod y pandemig a bod cyfyngiadau wedi effeithio ar yr hyn oedd yn bosib ei wneud) | **2021-22** | **2022-23** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Cefnogaeth i fusnesau | 6 ymgyrch, 265 o fusnesau gan Hunaniaith | | | |
| Ymwybyddiaeth Staff y Cyngor | 126 aelod o staff wedi cwblhau yr e-fodiwl YI | 133 o staff wedi'i gwblhau. | 131 o staff wedi cwblhau | 567 o staff wedi cwblhau |
| Nifer staff yn cael cefnogaeth i ddatblygu sgiliau | | | | |
| Arfor | 27 o fusnesau masnachol yng Ngwynedd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan gynlluniau gwedd 1 ARFOR. | | | |

DRAFT

## 4.4 Maes Blaenoriaeth 4: Iaith y Gymuned

Mae'r ffordd rydym yn ymwneud efo'n gilydd fel cymunedau wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a chafodd cyfnodau clo y pandemig a'r cyfnodau hir wedyn o orfod ymbellhau yn gymdeithasol effaith pellgyrhaeddol ar weithgarwch cymunedol. Mae rôl y Cyngor wrth gynnal gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y cymunedau yn bwysicach nag erioed felly.

Mae cyfraniad y fenter iaith, sydd hyd yma wedi bod yn rhan o Uned Iaith y Cyngor, wedi bod yn allweddol hefyd, gan dargedu ardaloedd penodol a chynnal gweithgareddau amrywiol a chyson i geisio ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cymunedau.

Roedd bwriadau'r Cynllun Hybu ar gyfer iaith y gymuned yn glir, i **gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** mewn gwahanol gyd-destunau a chefnogi, ac arfogi, grwpiau a mentrau cymunedol er mwyn sicrhau bod mwy o Gymraeg yn cael ei glywed a'i defnyddio mewn digwyddiadau cymunedol.

Roedd gweledigaeth y Cynllun yn y maes hwn yn nodi awydd gan y Cyngor i weld "*trigolion yn hyderus ddefnyddio pa bynnag sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg wrth fyw ei bywydau dyddiol yn ein cymunedau*", ac i "*wahanol garfanau o'r gymuned deimlo eu bod yn rhan o'r "gymuned Gymraeg"".*

**Gwaith y fenter iaith, Hunaniaith:**

**2019-2021**

O ganlyniad i Covid bu'n rhaid i'r fenter iaith addasu'r rhaglen waith yn sylweddol. Bu'n rhaid stopio gwneud gweithgareddau wyneb yn wyneb ac chanolbwyntio ar gynnig cefnogaeth a gweithgareddau mewn ffordd amgen. Datblygwyd adnoddau o'r newydd a chynhaliwyd gweithgareddau amrywiol ar-lein drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a zoom.

Darparwyd nifer o weithgareddau gan gynnwys gweithdai gwyddoniaeth a chelf drwy gyfrwng zoom i blant oed ysgol, noson gymdeithasol mewn tafarn ar-lein, cwisiau, gig, clwb gemau fideo ar gyfer pob oed, clipiau ffilm yn cynnwys darlithoedd a gweithgareddau i blant wneud eu hunain, sesiynau cymdeithasol zoom am enwau llefydd a hanes lleol yn ogystal â chynhadledd ar-lein i bobl ifanc ynghylch gwerth y Gymraeg yn y cyfryngau creadigol a'r byd busnes. Datblygwyd hefyd becyn ymwybyddiaeth iaith ar-lein yn cynnwys cwis digidol a fideo ar gyfer plant a phobl ifanc.

**2021-2023**

Gyda llacio cyfyngiadau bu'n bosibl ail afael mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb tra hefyd yn parhau gyda digwyddiadau ar-lein a hybrid. Yn unol â dymuniad Llywodraeth Cymru rhoddwyd rhoddwyd mwy o sylw i gefnogi ac arfogi grwpiau cymunedol i hybu'r Gymraeg yn barhaus.

Enghraifft o hyn yw'r gefnogaeth sydd wedi ei roi i sefydlu grwpiau sgwrsio ar gyfer dysgwyr Cymraeg mewn amryw o leoliadau ar draws y sir. Serch hynny mae'r fenter wedi parhau i gynnal gweithgareddau gan ganolbwyntio yn benodol ar blant a phobl ifanc a rhoi cyfleoedd ymarfer anffurfiol i ddysgwyr. Darparwyd cyfres o weithgareddau rheolaidd ar gyfer dysgwyr megis teithiau cerdded a nosweithiau cymdeithasol fel noson blasu gwin hybrid. Gobeithir bod rhoi'r cyfleoedd ymarfer yma yn eu hannog i chwilio am gyfleoedd eraill ac yn magu eu hyder i gymhathu yn eu

cymunedau. Bu cydweithio hefyd gyda chanolfannau trochi iaith er mwyn rhoi cefnogaeth i deuluoedd sydd wedi symud i'r ardal.

Un maes sydd wedi cael cryn sylw gan y fenter yng nghyfnod olaf y Cynllun felly yw darparu cyfleoedd i bobl, ac yn benodol felly dysgwyr, ymarfer eu sgiliau a magu hyder mewn awyrgylch hamddenol ac anffurfiol. Pan ddechreuodd y cyfyngiadau lacio, bu'r fenter yn trefnu nifer o deithiau cerdded, ar y cyd gyda swyddogion Dysgu Cymraeg lleol, oedd yn rhoi cyfle i bobl ddod at ei gilydd ac ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd gwahanol. Bu'r teithiau yn llwyddiant mawr, gyda Mentrau Iaith Cymru yn lledaenu'r model ar draws Cymru gyfan.

**Cefnogi grwpiau a mentrau cymunedol**

Yn dilyn cyfres o seminarau cymunedol yn 2017 penderfynwyd clustnodi cyfran fechan o grant y fenter iaith i dreialu cynllun oedd yn rhoi **cymorth cyfieithu ar y pryd** i bwyllgorau a mudiadau cymunedol. Roedd hyn mewn ymateb i bryderon bod nifer o fudiadau mewn perygl o orfod newid eu hiaith weithredol a weinyddol wrth groesawu aelodau newydd di-Gymraeg. Roedd galw amlwg am y gefnogaeth yma, a'r unig gyfyngiad oedd mai swm bychan yn unig o arian y bu'n bosib ei glustnodi ar gyfer pob blwyddyn y bu'r cynllun yn weithredol.

Mae dwy wedd o gynlluniau **Arfor** wedi bod yn weithredol yng nghyfnod y Cynllun. Rhaglen ARFOR

Mae'r cynllun hwn yn ganlyniad cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Lafur Cymru yn y Senedd, gydag arian yn cael ei glustnodi i geisio mynd i'r afael â'r heriau penodol sydd yn wynebu cadarnleoedd y Gymraeg o ran cadw pobl ifanc yn eu cymunedau a chyfleoedd economaidd. Yn ystod gwedd 1 Arfor, roedd pob un o'r bedair sir (Gwynedd, Mon, Ceredigion a Caerfyrddin) yn gweithredu prosiectau unigol ac yn peilota gwahanol ymyraethau. Roedd gan Gwynedd sawl cynllun grant oedd yn rhoi cefnogaeth i unigolion, busnesau a mentrau cymunedol, gyda phwyslais ar arloesedd a chreu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Fel y disgwyl, cafodd y pandemig effaith sylweddol ar weithrediad y cynlluniau, a bu rhaid addasu blaenoriaethau er mwyn parhau a chwblhau'r cynllun. Mae canlyniadau nifer y mentrau wedi ei nodi yn y tabl isod, gyda nifer y busnesau wedi eu cofnodi dan flaenoriaeth Gwaith a Gwasanaeth uchod.

Dyfyniad o adroddiad gwerthuso Arfor:

*Effeithiwyd yn sylweddol ar y rhaglen gan y pandemig coronafirws mewn sawl ffordd. Addaswyd y nod cyffredinol o greu swyddi i gynnwys diogelu swyddi. Roedd prosiectau unigol a deiliaid grantiau yn diwygio, yn gohirio neu, ar adegau prin, yn rhoi'r gorau i gynlluniau a gynigiwyd yn y ceisiadau. At hynny, roedd gwaith maes at ddibenion yr adroddiad gwerthuso wedi'i gyfyngu i gasglu data ar-lein ac o bell.*

Gwedd 2 –

Yn 2022 Cychwynnwyd ar ail gynllun Arfor, ar ôl cyfnod o werthuso cynlluniau gwedd 1, a thrafodaethau ariannu gyda Llywodraeth Cymru. Cytunwyd ar sawl cynllun i'w gweithredu ar draws y 4 sir ar gyfer gwedd 2. Mae hyn yn golygu bod cysondeb yn yr amcanion, ac er bod gan bob Cyngor sir gyfrifoldeb am weithredu a chymeradwyo ceisiadau ar lefel leol, mae'r modd yma o weithredu yn golygu y bydd yr effaith cadarnhaol posib ar draws y rhanbarth yn fwy. Hyd yma, mae 5 menter newydd, ac 14 menter gyfredol yng Ngwynedd wedi eu cymeradwyo i dderbyn grant drwy y gronfa

Cymunedau Mentrus, gydag amcan y bydd yr arian yn arwain at greu 84 o swyddi newydd, a diogelu 96 swydd, a chreu 18 o ofodau Cymraeg newydd.

**Prosiect Enwau Lleoedd Cynhenid Cymraeg**

Cafodd y prosiect hwn ei sefydlu yn ystod 2021 mewn ymateb i nifer o alwadau cyhoeddus, a phryderon am golli enwau Cymraeg yn nhirwedd y sir. Mae'r prosiect wedi bod yn edrych ar y gwahanol bwerau a dylanwad sydd gan y Cyngor wrth ddiogelu a gwarchod enwau lleoedd Cymraeg. Mae wedi cryfhau'r trefniadau a rhoi cefnogaeth ychwanegol i swyddogion rheolaeth adeiladu'r Cyngor wrth ddelio gyda cheisiadau i newid enwau eiddo. Mae swyddogion hefyd wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda sawl partner allanol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri a'r Arolwg Ordnans, ac maent hefyd wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (sydd yn gyfrifol am ymrwymiadau a wnaed yn y maes dan gytundeb cydweithredol Plaid Cymru a Llafur) a nifer o awdurdodau lleol eraill sydd yn awyddus i weld newid a chydweithio yn y maes.

Gwnaed datganiad polisi pwysig wrth adolygu Polisi Iaith y Cyngor yn ystod 2022, gyda'r penderfyniad y byddai'r Cyngor yn defnyddio ei enw Cymraeg yn unig o hyn ymlaen. Mae hyn yn cyd-fynd efo datganiadau pwysig gan sefydliadau eraill yng Nghymru, fel y Parc Cenedlaethol Eryri, sydd yn rhoi mwy o statws i'r Gymraeg o fewn y byd cyhoeddus. Roedd y polisi hefyd yn nodi bwriad y Cyngor i arddel enwau Cymraeg ar leoliadau ac enwau strydoedd bob amser yn eu dogfennau a gohebiaeth.

Cafodd ***Map Enwau Lleol*** – sef map rhyngweithiol sydd yn caniatáu i bobl greu cofnod o enwau lleol/tafodieithol am leoliadau o fewn eu hardal leol – ei lansio ddiwedd 2022, a bu'r swyddog prosiect yn cynnal nifer o weithgareddau gydag ysgolion ardal Dwyfor yn y misoedd cyn haf 2023, ac yn arwain fyny at yr Eisteddfod genedlaethol ym Moduan. Hyd at ddiwedd Mawrth 2023, roedd bron 400 o gofnodion wedi eu hychwanegu at y map. Cynhaliwyd sesiwn banel lwyddiannus yn yr eisteddfod, gyda Gweinidog y Gymraeg, Jeremy Miles, yn cyfrannu at drafodaeth ddifyr oedd yn codi cwr y llen ar y cyfleoedd a'r rhwystrau yn y maes.

Hyd at ddiwedd Mawrth 2023, roedd y prosiect hefyd wedi...

- Ymgynghori ar **43** cais newid enw tŷ yn ystod y flwyddyn.
- Rhannu pytiau ysgafn achlysurol (dau neu dri y mis) am enwau lleoedd mewn postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol i – megis casglu enghreifftiau o enwau yn cynnwys rhifau
- cyhoeddi **11** eitem Enw a'r Hanes ar fewnrwyd y Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth o ystyr enwau lleol ymysg staff y Cyngor.
- cynnal **2** sgwrs ar Radio Cymru i hyrwyddo'r prosiect.

**Blaenoriaethu'r Gymraeg mewn cynlluniau strategol (economaidd, tai a chynllunio)**

Yn ystod cyfnod y Cynllun Hybu, bu'r Cyngor yn gweithio ar sawl cynllun strategol mewn meysydd sydd yn allweddol i ffyniant ein cymunedau. Mae pob un wedi gosod y Gymraeg yn ganolog i'w gweithrediad, ac yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r heriau penodol yn y meysydd hynny sydd yn effeithio ar y boblogaeth a hyfywedd y Gymraeg.

Mae **Cynllun Tai** newydd (Cynllun-Gweithredu-Tai.pdf) wedi ei gyhoeddi. Cynllun amlweddog, uchelgeisiol sydd yn ceisio mynd i'r afael a'r heriau o ran fforddiadwyedd tai. Mae wedi bod yn



DRAFT

destun pryder ers rhai blynyddoedd nad yw pobl ifanc yn gallu fforddio prynu tai yn eu cymunedau lleol, ac felly eu bod yn fwy tebygol o symud o'r sir, gan fynd a'u sgiliau yn y Gymraeg gyda nhw. Mae'r cynllun tai, drwy gyfuniad o sawl cynllun rhentu a chymorth i brynu, yn ceisio sicrhau cyfle teg i bawb aros yn y cymunedau os mai dyna eu dymuniad.

Datblygwyd cynlluniau economaidd newydd hefyd, gyda'r **Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy** yn ymgais i osod gweledigaeth gryf ar gyfer newid y ffordd rydym yn edrych ar y diwydiant twristiaeth yng Ngwynedd. Mae'r cynlluniau hyn yn ymateb uniongyrchol i'r pryderon am y ffordd mae twristiaeth yn effeithio ar gymunedau, yn economaidd ac yn ddiwylliannol a chymdeithasol.

Bu'r Cyngor hefyd yn datblygu trefniadau asesu effaith newydd o fewn y broses gynllunio. Ers cyhoeddi'r *Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy* yn 2019 bu yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu datganiad neu asesiad ieithyddol a chymunedol os oedd eu cais cynllunio yn ateb meini prawf penodol. Mae cynnwys y datganiadau ac asesiadau hyn yn cael eu gwirio gan swyddogion iaith y Cyngor, ac maent yn cynnig sylwadau ar y sylfaen tystiolaeth ac addasrwydd yr asesiadau effaith er mwyn cynorthwyo Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i weld a yw'r ymgeisydd wedi ystyried yr effeithiau posib yn gywir a phriodol. Ers 2019, mae'r Uned Iaith wedi prosesu a chynnig sylwadau ar oddeutu **135 o geisiadau cynllunio**.

DRAFFT

| Iaith y Gymuned | 2018-19/19-20<br>(2018-19 hanner blwyddyn ar ôl cyhoeddi felly cyfunwyd y ffigyrau ar ddiwedd y flwyddyn llawn gyntaf) | 2020-21<br>(cofier bod hyn yng nghyfnod y pandemig a bod cyfyngiadau wedi effeithio ar yr hyn oedd yn bosib ei wneud) | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | **Niferoedd** | | | |
| Gweithio gyda grwpiau cymunedol sy'n draddodiadol Saesneg eu hiaith i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. | 2018-19 - Brownies Dolgellau<br>**5** digwyddiad **67** plentyn | *Dim gweithgareddau – blaenoriaethau'r fenter wedi newid* | | |
| Gweithgareddau cymunedol cyffredinol | | | **1** digwyddiad (gig awyr agored), **45** mynychwr | **22** (*ar-lein*)<br>**141** mynychwr |
| Gweithgareddau wedi eu targedu at garfanau penodol o'r gymuned. | | | | |
| Cefnogi Dysgwyr | | | | |
| ***Gwaith Hunaniaith*** | **2** weithgaredd, **30** mynychwr<br>**6** gweithgaredd, **84** mynychwr | **6** sesiwn **8** mynychwr (digwyddiad ar-lein i drigolion Llanberis)<br>**10** sesiwn, **6** mynychwr | **69** digwyddiad<br>(**43** ar-lein, **25** wyneb yn wyneb, 1 hybrid)<br>**773** mynychwr<br>*(Gweithgareddau amrywiol yn cynnwys gweithdai celf, drama, gweithdy gwerth y Gymraeg a'r byd digidol, pecyn ymwybyddiaeth ar-lein, cwisiau ar-lein, clwb gemau fideo misol, gweithdai gwyddoniaeth ar-lein a chlipiau fideo)* | **90**<br>**1144** mynychwr<br>(*yn cynnwys 22 taith gerdded i siaradwyr newydd, clwb sgwrsio wythnosol i siaradwyr newydd yn Llanystumdwy, Llanberis, Bangor, Trawsfynydd, Groeslon a Chlwb loncian ym Mangor)* |
| Plant a Phobl Ifanc | | | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Gwaith Hunaniaith*** | Rap a fideo - **3** gweithdy, **38** o bobl ifanc<br>Flogio - **1** gweithdy, **7** person ifanc | *(Dim data – cyfnod clo)* | **10** digwyddiad wyneb yn wyneb, **79** gweithgaredd ar-lein | **67** o weithgareddau<br>**1699** o fynychwyr |
| ***Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor*** | | **2850** cyfle wedi ei ddarparu a **13453** mynychwr (ar draws 2020/21 a 2021/22) | | **3250** o sesiynau wedi eu drefnu trwy gyfrwng y Gymraeg, **17625** o fynychwyr ar hyd y flwyddyn |
| Digwyddiad Pontio cenedlaethau | **6** disgybl, **14** oedolyn | | | |
| Pobl Hyn (Gweithgareddau dementia) | *(Dim data ar gael)* | Digwyddiadau wythnosol<br>Tua **77** o fynychwyr rheolaidd (ar gyfartaledd) | Digwyddiadau wythnosol<br>**3745** o fynychwyr ar draws y lleoliadau a'r flwyddyn | Digwyddiadau wythnosol<br>Cyfanswm mynychwyr:**7056**<br>Mynychwyr wyneb yn wyneb: **5954**<br>Mynychwyr arlein: **1102** |
| Cynllun Cyfieithu Cymunedol | **14** mudiad neu grwp wedi derbyn cefnogaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd | *Cynllun ddim yn weithredol* | Cyfanswm cyfleoedd: **18**, Mynychwyr 684<br>(*Cefnogaeth rhithiol ac wyneb yn wyneb i 2 fenter gymunedol a 2 fudiad cymdeithasol gan alluogi cyfarfodydd i gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhwng Ebrill a Medi 2021 defnyddiwyd yr adnodd mewn 14 o ddigwyddiadau unigol, gyda chyfanswm o 575 o unigolion yn* | **8** grŵp cymunedol wedi derbyn cefnogaeth a'i harfogi i gynnal sesiynau eu hunain yn y pendraw |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *mynychu.Ch3 - 4 digwyddiad, 109 mynychu)* | |
| Cefnogaeth i grwpiau a mentrau cymunedol drwy arian gwedd 1 Arfor | **3** menter wedi derbyn cefnogaeth | | | 5 menter newydd<br>14 menter bresennol wedi derbyn cefnogaeth |
| Cynadleddau/seminarau cymunedol a chefnogaeth i Gynghorau Cymuned | **5** Cyngor Cymuned wedi derbyn arweiniad ar ddefnydd a statws y Gymraeg mewn digwyddiadau cymunedol | *Dim gweithgareddau – blaenoriaethau'r fenter wedi newid* | | |

DRAFT

## 4.5 Maes Blaenoriaeth 5 – Ymchwil a Thechnoleg

### Ymchwil

Mae'r Uned Iaith a Chraffu wedi bod yn gweithio ar ddatblygu'r berthynas gydag academyddion blaenllaw ym maes cynllunio ieithyddol, ac mae rhwydwaith o swyddogion iaith o awdurdodau ardal Arfor, a chynrychiolwyr o brifysgolion Cymru wedi bod yn cyfarfod er mwyn rhannu gwybodaeth am y gwaith ymchwil sydd wedi ei gynnal ac sydd ar y gweill.

Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu perthynas benodol gyda Phrifysgol Bangor, ac wedi comisiynu dau ddarn o waith **ymchwil**. Gwnaed cais am arian sbarduno ar y cyd efo'r Brifysgol er mwyn gwneud darn o waith ymchwil cychwynnol i'r cyswllt rhwng iaith ac economi, gan edrych yn benodol ar yr economi ymweld ac effaith y dynodiad Safle Treftadaeth Byd ar y Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn rhan-ariannu **ymchwil PhD** fydd yn edrych ar agweddau pobl a'u defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud efo gwasanaethau cyhoeddus.

### Technoleg

Roedd y Cynllun Hybu yn nodi bwriad i geisio dylanwadu ar ddefnydd pobl o'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg.

Mae'r Cyngor wedi cynnal digwyddiadau i gyfrannu at waith casglu data lleisiol Common Voice, ac wedi bod yn ddylanwadol wrth sicrhau bod gwasanaethau ar-lein allweddol sydd yn cael ei darparu gan Lywodraeth canolog ar gael yn Gymraeg i'r cyhoedd. Dros y blynyddoedd mae swyddogion y Cyngor wedi darparu cyngor arbenigol, gwasanaeth prawf-ddarllen a phrofi, ac wedi gwneud gwaith cyfieithu ar gyfer sawl system newydd, gan gynnwys gwiriadau DBS, Bathodyn Glas, ac wedi sicrhau bod adnoddau hyfforddiant IOSH ar gael yn ddwyieithog. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau adnoddau a chyfleoedd i staff y Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg, ond hefyd yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwasanaethau o safon y maent yn ei haeddu yn y Gymraeg.

Gyda newidiadau pellgyrhaeddol wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf o ran defnydd o dechnoleg, mae'n deg dweud ei bod wedi bod yn her ychwanegol i'r Cyngor weithredu yn y maes hwn.

Yn ystod y cyfnod clo, bu rhaid i'r adran addysg, a gweithlu y Cyngor yn ei gyfanrwydd mewn gwirionedd, **addasu i weithio a chynnig gwasanaethau o bell**. Bu'r Adran Addysg a staff ysgolion yn gweithio yn galed, nid yn unig i ddarparu cyfleoedd dysgu rhithiol, ond i wneud yn siŵr bod amrywiaeth o **adnoddau digidol** ar gael i'r disgyblion i allu parhau a'u haddysg cyfrwng Cymraeg. Bu gwasanaethau'r Cyngor yn addasu hefyd, gyda mwy o wasanaethau yn cael eu cynnig drwy hunanwasanaeth ac ar-lein, a phob un o'r rhain ar gael yn Gymraeg.

Bu'r Cyngor yn flaengar yn ei ddefnydd o dechnoleg wrth ymateb i'r ffyrdd newydd o weithio, ac yn benodol felly wrth sicrhau bod cyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor yn gallu parhau i weithredu yn ddwyieithog. Bu sawl her wrth symud at y trefniadau gweithio o bell, ac yn ddiweddarach i gynnal cyfarfodydd hybrid, ond mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sydd yn cynnwys yr uned gyfieithu, wedi bod ar flaen y gad wrth oresgyn unrhyw rhwystrau, wrth drafod a chydweithio gyda'r cwmni cenedlaethol sydd yn darparu gwasanaethau hybrid i sefydliadau cyhoeddi, ac hefyd wrth ddylanwadu ar sefydliadau eraill (gan fynd cyn belled a threfnu cyfarfodydd ar ran eraill pan oedd cyfyngiadau ar rai sefydliadau i ddefnyddio Zoom) . Adroddwyd ar y llwyddiannau hyn yn adroddiadau blynyddol yr Uned Iaith ar weithrediad y Safonau Iaith. Gellir gweld adroddiad 2021-22,

er enghraifft yma: [Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-2022. Pwyllgor Iaith.pdf (llyw.cymru)]

Yn dilyn y cyfnod clo, a'r gydnabyddiaeth am y cynnydd yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, cafwyd buddsoddiad gan y Cyngor i weithredu ac ymestyn **Prosiect 15**, er mwyn gweithio yn benodol i gynyddu'r cynnwys cyfrwng Cymraeg sydd yn cael ei greu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod 2023 sefydlwyd cyfrifon cymdeithasol amrywiol gan ganolbwyntio yn bennaf ar Instagram a TikTok. Cynhaliwyd cystadlaethau er mwyn annog plant a phobl ifanc i greu clipiau fideo ar themâu amrywiol ac fe fynychwyd Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd er mwyn cynnal digwyddiadau penodol a rhoi sylw i'r prosiect, gan dargedu plant a phobl ifanc. Cydweithiwyd gyda chlybiau chwaraeon ag ysgolion lleol er mwyn creu deunydd yn gysylltiedig gyda Chwpan Rygbi'r Byd yn ogystal ag undebau myfyrwyr ar gyfer cyfres fideo Wythnos y Glas. Cynhaliwyd hefyd weithdai mewn ysgol uwchradd er mwyn cynhyrchu sawl fideo a ffeithlun yn seiliedig ar thema 'Ffeithiau am Arloeswyr Cymreig'.

Mae technoleg hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn y prosiect Enwau Lleoedd hefyd, gyda lansio'r map rhyngweithiol. Datblygodd yr Uned Iaith a Chraffu fap gweithgareddau rhyngweithiol hefyd, sef map sydd wedi ei gynllunio i ddangos lle mae gweithgarwch cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws y sir. Mae modd i unrhyw grŵp, mudiad neu glwb sydd yn cynnwys gweithgareddau rheolaidd yn y cymunedau ychwanegu eu gwybodaeth at y map er mwyn i eraill ddod o hyd iddyn nhw.

Mae gwerth sôn yma eto am ddatblygiad prosiect Aberwla gan yr adran Addysg, sef byd rhithiol (VR) sydd wedi ei ddatblygu i gyd-fynd efo'r cynllun trochi newydd. Mae hwn yn ddatblygiad arloesol ym maes trochi iaith plant, ac ers ei rannu yn gyhoeddus am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol 2022 mae wedi ennyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'w rannu ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn dangos bod Cyngor Gwynedd unwaith eto yn arwain y gad o ran datblygu prosiectau newydd sydd yn cefnogi'r Gymraeg, ac yn adeiladu ar lwyddiant y Siarter iaith yn y gorffennol.